

Comisiwn Ystadegau Adroddiad Blynyddol 2002-2003

Cyflwynwyd i'r Senedd gan Ysgrifennydd Economaidd y
Trysorlys drwy Orchymyn Ei Mawrhydi
Gorffennaf 2003

Statistics Commission
10 Great George Street
London SW1P 3AE

Ffôn: +44 (0)20 7273 8008
Ffacs: +44 (0)20 7273 8019
Ebst: statscom@statscom.org.uk
Gwefan: www.statscom.org.uk

CM5845

Cynnwys

	Tudalen
Rhagymadrodd y Cadeirydd	3
1. Prif gyflawniadau'r flwyddyn	4
2. Cyd-destun ein gwaith	5
3. Gwaith y Comisiwn yn 2002-03: cwrdd â'n rhwymedigaethau yn y <i>Framework for National Statistics</i>	9
4. Gwaith y Comisiwn yn 2002-03: pynciau a ddewiswyd i'w harchwilio	12
5. Cyfathrebu â defnyddwyr a chwaraewyr allweddol eraill	19
6. Golwg ymlaen 2003-04	22
Atodiad 1: Y Comisiwn Ystadegau	23
Atodiad 2: Y Comisiynwyr	24
Atodiad 3: Gwneud ein rhan mewn Ystadegau Gwladol	26
Atodiad 4: Rhestr o adroddiadau	28
Atodiad 5: Perfformiad yn erbyn amcanion 2002-03	30
Atodiad 6: Adnoddau a rheoli risg	31

Rhagymadrodd y Cadeirydd


Dyma drydydd adroddiad blynyddol y Comisiwn Ystadegau ac mae'n ymdrin â'r cyfnod o Ebrill 2002 hyd at Fawrth 2003. Dyma'r un olaf y byddaf i'n ysgrifennu rhagymadrodd iddo, gan bod fy nhymor fel cadeirydd yn dod i ben ar 30 Ebrill, pryd y byddaf yn trosglwyddo'r awenau i'r Athro David Rhind. Bu ef yn aelod o'r Comisiwn ers y dechrau, ac mae'n fwy na chymwys i barhau â gwaith y tair blynedd ddiwethaf.

Bu'r flwyddyn o dan sylw yn un gynhyrfus. Rydym wedi gorfod gweithio'n galed i gael datganiad clir am y gwirionedd am *Network Rail*, rydym wedi dechrau datrys rhai o'r dirgelion am ystadegau asedau cronfeydd pensiwn, ac rydym wedi annog trafodaeth sylfaenol am Gyfrifiad 2001 a'r rhai dilynol. Ond y digwyddiad mwyaf pwysig o bell ffordd oedd cyhoeddi, ym mis Hydref 2002, yr hir-ddisgwyliedig *National Statistics Code of Practice*. Mae gennym bellach ddogfen eglur, a fydd yn cael ei dilyn gan holl lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig, sy'n feincnod o ymarfer ystadegol da. Roedd hi'n werth aros amdani, ond mae'n rhaid i ni nawr weithio gyda'r Ystadegydd Gwladol i sicrhau ei bod yn golygu newid real a pharhaol i'r diwylliant o ystadegau swyddogol yn y llywodraeth drwyddi-draw.

Mae'n debyg mai dim ond drwy ddeddfwriaeth y ceir sefydlogrwydd. Cyfarwyddwyd y Comisiwn i beidio ag ystyried y mater o ddeddfwriaeth newydd nes iddo fod mewn grym am ddwy flynedd, felly eleni gwelwyd dechrau ymgynghoriad ac ymchwil i'r angen am ddeddfwriaeth o'r fath a'r ffurf orau o ddeddfwriaeth. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol, ac ar ôl un cyfnod arall o ystyried ac ymgynghori, bydd gennym gyngor cadarn i weinidogion a'r Senedd.

Mae'n anochel bod llawer o ganlyniadau cyhoeddus y Comisiwn yn ymwneud â phroblemau neu wendidau ystadegau swyddogol. Nid clwb cefnogwyr Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth ydym ni, ac mae'n rhaid i ni siarad allan yn glir pan fo pethau'n mynd o'u lle. Ond ni ddylai hyn dynnu dim o'r ffaith, bod y DU, o ystyried Ystadegau Gwladol yn eu cyfanrwydd, yn cael ei gwasanaethu'n dda gan yr ystadegwyr proffesiynol dros ben sy'n rhan o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol a changhennau ystadegol adrannau llywodraeth. Mae'r genedl yn dibynnu gymaint ar eu tegwch a'u hannibyniaeth gwleidyddol nhw ag ar eu medr technegol, a swyddogaeth y Comisiwn yw adeiladu hyder y cyhoedd yn eu gwaith, hyder y gellir ei gyfiawnhau.

Wrth i mi drosglwyddo'r gadeiryddiaeth, hoffwn ddiolch i'm cyd-gomisïynwyr, a staff y Comisiwn, yn arbennig ein prif weithredwr Gill Eastabrook. Hi fu'n goruchwyllo'n fedrus iawn sefydlu swyddfa'r Comisiwn a chefnogi ei waith dros y cyfnod cychwynol tyngedfennol. Mae ei secondiad o'r Adran Iechyd yn dod i ben gyda hyn, ac rydym yn dymuno'n dda iddi yn y dyfodol.



1. Prif gyflawniadau'r flwyddyn

Dyma'r prif feysydd lle bu'r Comisiwn yn ceisio gwella pethau. Wrth gwrs mae rhywfaint o'r clod am newid gwerth chweil yn syrthio ar bobl eraill hefyd ond credwn i ni ddylanwadu'n bendant ar y sefyllfa ym mhob un o'r achosion yma:

- o'r diwedd cyhoeddodd yr Ystadegydd Gwladol fersiwn terfynol, wedi ei wella'n ddirfawr, o'r *Code of Practice*, ynghyd â'i ddau brotocol ategol, ym mis Hydref 2002. Roeddem wedi pwysu dro ar ôl tro am i hwn ymddangos ac wedi gwneud sylwadau adeiladol ar y drafft. Buom yn pwysu'n llwyddiannus hefyd am set lawn o brotocolau ac am ddatganiadau cydymffurfiaeth adrannol
- ar y mater o roi cyfrif am *Network Rail*, fe lwyddom ni, ar ôl trafodaethau maith, i gael datganiad clir gan y llywodraeth ym mis Rhagfyr 2002. Felly mae gennym sail erbyn hyn dros sicrhau bod achosion yn y dyfodol sydd ar ffin y sectorau preifat a chyhoeddus yn cael eu trin yn iawn ac yn fwy prydlon yn y dyfodol
- dangosom broblemau gyda chyhoeddi gwybodaeth reoli ar restrau aros ac, o ganlyniad, mae'r Adran lechyd wedi cyflwyno gwell trefniadau ar gyfer atodiadau ystadegol (wedi eu rheoli'n broffesiynol) i adroddiadau rheoli
- perswadiom y Trysorlys i wella'r ffordd y mae gwybodaeth am Gredydau Treth Aelwydydd yn cael ei ddangos yn yr *Pre-Budget Report*
- ceisiodd sicrhau bod cyfaddawd priodol yn cael ei ganfod rhwng y risg o ddatgelu gwybodaeth Cyfrifiad gyfrinachol ac unrhyw leihad yng ngwerth y wybodaeth honno wedyn. Buom yn trafod hyn gyda'r Ystadegydd Gwladol, gan ei annog i roi ystyriaeth briodol i anghenion defnyddwyr. Buom hefyd yn helpu defnyddwyr i ddeall pam oedd angen rhai newidiadau
- yn sgil mesur targedau ar gyfer cyfraddau mynediad cychwynnol i addysg uwch (AU) codwyd pryderon bod y diffiniadau o'r hyn y mae AU yn ei olygu yn cael eu camdefnyddio. Rhoesom berswâd ar yr Adran Addysg a Sgiliau i ymdrin â hyn o fewn adolygiad ansawdd Ystadegau Gwladol
- rydym wedi siarad yn eang gyda'r gymuned ddefnyddwyr er mwyn gallu deall a sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn ymateb i'r hanghenion
- rydym wedi gwneud cynnydd o ran adolygu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau.

Mae meysydd gwaith pwysig eraill yn y flwyddyn yn dal i fynd rhagdynt:

- roedd rhai awdurdodau lleol yn poeni bod eu poblogaethau Cyfrifiad yn is na'r disgwyl. Rydym yn astudio sefyllfa San Steffan (lle mae'r newidiadau rhwng rhagolygon blaenorol y boblogaeth a ffigyrau'r Cyfrifiad ar eu huchaf) i weld beth y gellid dysgu a pha gamau – os o gwbl – sydd angen eu cymryd. Bydd casgliadau'r gwaith hwn yn bwydo i mewn i'n syniadau am ddyfodol y Cyfrifiad
- codasom gwestiynau am y rhesymau dros gangymeriadau sydd wedi digwydd wrth gynhyrchu Ystadegau Gwladol, yn enwedig eleni o safbwynt ystadegau pensiwn, ac rydym wedi derbyn ymatebion boddhaol mewn rhai achosion. Rydym yn dal i fynd ar ôl yr achosion hynny lle nad yw hyn yn wir
- buom yn dangos y problemau a all godi wrth ddefnyddio targedau ystadegol i fesur perfformiad llywodraeth. Bydd rhai agweddau o hyn yn rhan o'n rhaglen waith yn y flwyddyn sydd i ddod.

2. Cyd-destun ein gwaith

Caiff ystadegau cenedlaethol eu defnyddio i lywio polisi a gweld ei fod yn cael ei weithredu'n llwyddiannus; cânt eu defnyddio i uwchraddio pensiynau a nifer o fathau o fudd-dâl gwladol, i gynorthwyo gyda gweithrediad marchnadoedd ac i roi gwybodaeth i fentrau masnachol. Cânt eu defnyddio mewn addysg, o fewn cymunedau lleol a chan y dinesydd unigol yn ogystal â chyrrff an-llywodraethol, yn cynnwys elusennau. Mae'r anghenion am ystadegau o'r fath wedi newid wrth i gymdeithas newid. Er mwyn deall gwaith y Comisiwn, mae'n bwysig hefyd deall y cyd-destun newidiol hwn a'r anawsterau ymarferol o gasglu gwybodaeth sy'n berthnasol i anghenion y rheiny sy'n defnyddio Ystadegau Gwladol. Mae'r adran hon yn crynhoi'r cyd-destun newidiol; yn egluro'r egwyddor sylfaenol sy'n sail i weithredoedd y Comisiwn; yn gosod allan y ffactorau sy'n dylanwadu ar ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Ystadegau Gwladol; ac yn disgrifio sut yr ydym yn penderfynu ar ein blaenoriaethau.

Beth yw Ystadegau Gwladol?

Ystadegau Gwladol yw'r ystadegau hynny a gesglir gan y llywodraeth neu ei hasiantaethau sy'n fwyaf pwysig i ni fel cenedl ac a all sicrhau bod ansawdd iddynt. Y nod yw eu bod yn dangos darlun digon manwl, cynhwysfawr a diweddar o'r economi a'r gymdeithas, i helpu i ffurfio, monitro a chyflawni polisiâu economaidd a chymdeithasol gan lywodraethau ar bob lefel. Mae'r ddogfen *Framework for National Statistics* yn ei gwneud yn eglur bod Ystadegau Gwladol hefyd yn anelu at:

- 'hysbysu'r Seneddau a'r Cynullidau a'r dinesydd am gyflwr y genedl a bod yn ffenestr i waith a pherfformiad y llywodraeth...
- rhoi gwasanaeth ystadegol i fusnesau sy'n hybu masnach a diwydiant i weithredu'n effeithiol
- darparu gwasanaeth ystadegol i ymchwilyr, dadansoddwyr a chwsmeriaid eraill sy'n cynorthwyo eu gwaith a'u hastudiaethau
- hyrwyddo'r amcanion yma o fewn y DU, yr Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol a darparu gwasanaeth ystadegol i gwrdd â gofynion yr Undeb Ewropeaidd a rhai rhyngwladol.'

Cafodd cwmrawd gwreiddiol Ystadegau Gwladol ei bennu gan weinidogion pan gawsant eu lawnsio yn 2000. Mae'r holl ystadegau a gynhyrchir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cael eu dynodi'n Ystadegau Gwladol. Nid felly mae hi fodd bynnag i adrannau llywodraeth eraill, fel yr Adran Iechyd (AI) a'r Swyddfa Gartref (SG). Bu nifer o newidiadau i gwmpawd Ystadegau Gwladol ers 2000 ond nid oes rhestr gyfun fel ar Ebrill 2003 nac ychwaith broses dryloyw ar gyfer gwneud a chyfleu newidiadau dynodiad o'r fath gan weinidogion. Bydd y Comisiwn yn ceisio gwella ar y sefylla anfoddfa hon. Mae gan yr Ystadegydd Gwladol y pŵer i gael gwared o'r dynodiad ar unrhyw ystadegau o'r fath a gynhyrchir gan y llywodraeth os yw'n teimlo nad yw eu ansawdd yn ddigon uchel i gwrdd â'r meini prawf. Mae ef eisoes wedi defnyddio'r pŵer hwn – a hynny'n ddiymdroi.

Ystadegau, ystadegwyr, a'r byd y maent yn gweithredu ynddo

Hanner canrif yn ôl, roedd cymdeithas Prydain yn wahanol iawn i heddiw. Y 'teulu niwclear' oedd prif strwythur y gymdeithas – roedd y tad (y penteulu), y fam a'r plant yn byw fel un uned, weithiau gyda nain a taid hefyd. Yr adeg honno ychydig iawn o bobl oedd â mwy nag un cartref: roedd 'lle byw' a 'lle gwaith' yn gwestiwn syml iawn i'r rhan fwyaf o'r boblogaeth. Hanner canrif yn ôl, roedd llawer o'r swyddi yn cael eu darparu gan weithgynhyrchu neu weithgareddau cysylltiedig eraill – gweithgaredd y gellid ei fesur yn hawdd. Roedd merched yn dipyn llai amlwg yn y gweithlu hwnnw. Ar y cyfan daeth amlygrwydd gwasanaethau ariannol a chyflogaeth gwasanaeth arall gryn dipyn yn hwyrach. Mae'r newidiadau yma i gyd wedi dylanwadu ar yr hyn y mae'n rhaid ei gasglu.

Roedd y gyfradd genedigaethau dipyn yn uwch yn yr 1950au nag y mae hi heddiw ond ers hynny mae disgwyliad oes wedi llamu i fyny. Mae gwrth-feiotigau, rhaglenni brechu a gwell

safonau tai wedi lleihau'r gyfradd farwolaeth o afiechydon heintus. Erbyn heddiw, mae afiechydon eraill fel canser wedi dod yn eu lle fel prif bryderon. Mae'r syniadau am beth mae tlodi yn ei olygu wedi newid. Roedd pethau'n cael eu prynu fel rheol gan gwmnïau lleol neu genedlaethol. Ychydig iawn oedd yn mynd ar wyliau tramor, ychydig oedd yn berchen ar deledu. Roedd y boblogaeth yn dipyn llai amrywiol o ran cefndir ethnig. Nid oedd cymaint o geiswyr lloches ym Mhrydain ag sydd yna ar gyhwyn yr unfed ganrif ar hugain. Roedd parch at lywodraeth – fel y gwelir drwy arferion pleidleisio a phlygu i awdurdod – yn dipyn mwy na heddiw, oedd yn golygu ei bod yn haws casglu gwybodaeth gan ddinasyddion.

Yn olaf, mae'r berthynas rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat wedi newid yn sylweddol ers y 50au. Mae'r defnydd cynyddol o Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus (gyda rhywfaint o gyfrinachedd masnachol mewn materion ariannol), o gontractio gweithgareddau allan i'r sector preifat, cyflwyno asiantaethau gweithredol o fewn llywodraeth (gyda rhai ohonynt yn masnachu am elw) a chyflwyno cyfrifo adnoddau wedi cymhlethu rhai mesurau perfformiad ac atebolrwydd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn i gyd, mae'r gweithgareddau y mae'r wladwriaeth a'r dinasyddion am eu deall bellach yn llawer mwy amrywiol ac anodd eu crynhoi ar ffurf ystadegau.

Nid oes angen rhai pethau arnom bellach. Er enghraifft, nid ydym bellach angen ystadegau ar gyfran y tai sydd â thoiled y tu allan – daeth hynny i ben gyda gosod safonau cenedlaethol i godi tai. Nawr rydym angen (ond ni allwn eu mesur yn ddigonol eto) amrywiadau incwm i lywio polisiâu ar gynhwysiad cymdeithasol. Yn y 30 mlynedd diwethaf aethom ati i gynhyrchu mwy a mwy o ystadegau i boblogaeth genedlaethol amrywiol, ddysgedig. Mae'n rhaid i ni gynhyrchu rhai ohonynt i'r Comisiwn Ewropeaidd gan ddefnyddio dosbarthiadau sy'n sicrhau y gellir gwneud cymariaethau ystyrlon ar draws gwledydd. Ac mae hyn i gyd yn digwydd mewn byd lle mae rhai ymatebwyr posibl (fel dynion ifanc yn byw ar eu pennau eu hunain neu'r digartref) yn fwy a mwy anodd eu canfod a lle mae busnesau wedi ceisio'u gorau i leihau baich llenwi ffurflenni.

Mae un newid sylfaenol wedi helpu pethau: y gwelliant mewn technoleg. Yn ogystal â hyn, mae nifer o Ystadegau Gwladol bellach yn cael eu cynhyrchu gan wybodaeth reoli. Mae'r hyn oedd ar un adeg yn amhosibl ei ystyried o safbwynt casglu neu ddadansoddi data yn gwbl ymarferol bellach. Ar y llaw arall, mae'r rhwyddineb cymharol yma wedi codi pryderon y cyhoedd am breifatrwydd a gwarchod data a'r ystadegwyr yn gorfod mynd i'r afael â hyn, yn enwedig wrth chwilio am ffyrdd effeithiol o greu ystadegau o ddata gweinyddol. Mae'r defnydd cynyddol o ddata gweinyddol hefyd yn dwyn yr her o sicrhau arferion rhyddhau teg.

Erys rhai pethau heb newid. O'r blaen, fel nawr, roedd angen hollbwysig am ystadegau da i helpu i lywio polisi'r llywodraeth, i hysbysu llywodraeth a busnes am yr economi, ac i hysbysu'r gymdeithas amdani hi ei hun. Roedd angen gwybodaeth o'r fath, ac mae ei hangen o hyd, nid yn unig fel darlun ond fel cyfres amser i ddangos tueddiadau. O'r blaen, fel nawr, roedd yr amrediad o ystadegau oedd eu hangen yn eang iawn; o'r blaen, fel nawr, roedd mwy o alw am wybodaeth nag oedd o adnoddau i'w darparu.

Yn adlewyrchu cymdeithasau gwahanol iawn yr 1950au a'r blynyddoedd 2000, mae'r union ystadegau sydd eu hangen wedi newid, mae'r cwsmeriaid ar eu cyfer wedi ehangu ac mae'r anhawster o'u casglu wedi cynyddu – er bod y dechnoleg ar gyfer eu casglu, eu gosod mewn trefn a'u lleadaenu wedi gwella'n ddirfawr.

Egwyddor sylfaenol

Pwynt hyn i gyd yw pwysleisio bod yr her o greu Ystadegau Gwladol o ansawdd uchel, sy'n berthnasol ac yn amserol, i gwrdd â thoreth o anghenion yn un anodd iawn. Mae'r Ystadegydd Gwladol a'i gydweithwyr yng Ngwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth yn wynebu sialensau hynod anodd wrth iddynt geisio gwella'r sefyllfa bresennol, dod dros blynyddoedd lawer o dan-fuddsoddi yn y rhwydwaith ystadegol a gweithredu mewn byd sy'n llawer mwy tryloyw ac agored i archwiliad gan y cyhoedd.

Mae aelodau'r Comisiwn Ystadegau yn deall hyn yn iawn. Byddwn yn cefnogi'r Ystadegydd Gwladol a'i gydweithwyr yn gyhoeddus pryd bynnag y bo'n amlwg eu bod wedi gwneud gwaith da. Ond, rhan bwysig o'n swyddogaeth ni yw edrych hefyd ar feysydd lle y gall fod angen gwella gwaith Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth a byddwn yn ymdrechu, mewn pob ffordd bosibl, i ddod â'r gwelliannau dymunol i rym, gan adrodd ein casgliadau yn ôl yr un mor gyhoeddus.

Yn yr un ffordd yn union, byddwn yn beirniadu'n gyhoeddus unrhyw weithredoedd gan adrannau'r llywodraeth y credwn eu bod yn tramgwyddo'r *Code of Practice* neu safonau ymddygiad derbynol lle mae hyn yn effeithio ar Ystadegau Gwladol. A byddwn yn eu cefnogi lle bo'n briodol.

Ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Ystadegau Gwladol

Caiff ei dderbyn yn gyffredinol bod ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol, yn enwedig Ystadegau Gwladol, yn sail hanfodol i'n cymdeithas ddemocrataidd. Un swyddogaeth bwysig i'r Comisiwn Ystadegau yw sicrhau y gellir bod yn hyderus am ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Ystadegau Gwladol a meithrin hynny pan fo'n digwydd. Dyma'r prif ddylanwadau, yn ein tyb ni, sy'n effeithio ar ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau o'r fath:

- bod yr ystadegau o ansawdd amlwg uchel, yn addas i'w dibenion a bod eu dibynadwyedd yn cael eu fynegi'n eglur
- bod yr ystadegau'n cael eu crynhoi a'u prosesu mewn ffyrdd sy'n cael eu cyhoeddi a bod y dulliau a ddefnyddir wedi bod yn destun ymgynghoriad priodol (er bod yn rhaid i'r Ystadegydd Gwladol ddefnyddio'i farn broffesiynol yn y diwedd a'i hamddiffyn pan fo angen)
- bod ystadegau craidd ar gael yn hawdd, am ddim, wedi eu dogfennu'n dda ac mewn ffurf hawdd ei defnyddio
- bod cwmpawd Ystadegau Gwladol yn cael ei weld yn un rhesymol, heb unrhyw gyfresi data pwysig wedi eu cuddio o'r archwiliad ansawdd sydd ymhlyg yn y disgrifiad hwn
- bod Ystadegau Gwladol yn cael eu crynhoi yn annibynnol o weinidogion, heb unrhyw ymyrraeth gwleidyddol
- bod yna gylch gorchwyl eglur i'r Ystadegydd Gwladol a llinellau atebolrwydd rhyngddo ef a'r rheiny sy'n cynhyrchu Ystadegau Gwladol, hyd yn oed pan nad ydynt yn rhan o adran lywodraeth, fel yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch
- bod yr ystadegau'n cael eu hadrodd yn glir ac yn deg gan rai sydd â dylanwad allweddol fel y cyfryngau
- bod dinasyddion wedi eu haddysgu'n ddigonol i ddeall nodweddion pwysig yr ystadegau.

Er mwyn cyflawni'r agwedd yma o'n swyddogaeth, mae'n rhaid i'r Comisiwn wneud ei ran i sicrhau bod yr amodau uchod i gyd yn cael eu cwrdd ac mae hyn yn dylanwadu ar bennu'n blaenoriaethau.

Sut ydym yn pennu'n blaenoriaethau

Mae rhai o'n gorchwylion, fel rhoi sylwadau ar Raglen Waith Ystadegau Gwladol, wedi eu hamlinellu yn y ddogfen *Framework for National Statistics*. Rydym yn dewis pa faterion eraill i roi ystyriaeth iddynt yn seiliedig ar y canlynol:

- materion y credwn eu bod o bwysigrwydd sylfaenol ar hyn o bryd
- materion y rhagwelwn y byddant o bwysigrwydd sylfaenol yn y dyfodol ee o ran ymddiriedaeth y cyhoedd mewn Ystadegau Gwladol
- yr hyn y gofynnir i ni ei wneud gan y llywodraeth neu'r Senedd

- ymholiadau a dderbyniwn gan aelodau'r cyhoedd neu gan sefydliadau.

Yn anochel nid yw'r hyn yr ydym yn dewis ei archwilio yn adlewyrchu ystod llawn y gwaith sy'n digwydd ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Dylai'n gwaith roi'r sylw pennaf i lle mae angen, neu'r ymddengys bod angen, gwelliannau neu lle mae ymddiriedaeth mewn Ystadegau Gwladol mewn mwyaf o berygl. Ond mae'n bwysig adnabod natur y dewis hwn – nid ydym wedi ceisio edrych ar sampl cynhwysfawr neu gynrychioladol o Ystadegau Gwladol.

Mae'r gyrrwyr yma wedi'n harwain at bennu'n blaenoriaethau presennol mewn tri prif faes:

- i ddechrau, rydym yn edrych ar faterion mawr sy'n hollbwysig i fywydau pobl, er enghraifft pensiynau
- yn ail rydym yn dilyn materion o bryderon cyhoeddus sy'n wynebu pobl ar hyn o bryd – fel asesu pa mor ystyrlon yw ffigyrau aros y Gwasanaeth Iechyd Gwladol
- yn olaf, rydym yn gweithio gyda'r Ystadegydd Gwladol a'i dîm i sicrhau bod ymarfer da yn greiddiol ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth. Gwnaed hyn drwy'n rhan yn natblygiad y *National Statistics Code of Practice* a'i brotocolau. Mae'n parhau drwy sicrhau bod y rhain yn cael eu dilyn ym mhob un o adrannau'r llywodraeth.

Yn ogystal â hyn, rydym yn adeiladu rhaglen ymchwil a fydd yn ein helpu i fynd i'r afael â materion tymor hir (gweler adran 6).

3. Gwaith y Comisiwn yn 2002-03: cwrdd â'n rhwymedigaethau yn y *Framework for National Statistics*

Roedd llawer o'n gwaith yn 2002-03 yn ymwneud â hanfod Ystadegau Gwladol, yn hytrach na'r nifer o gyfresi ystadegol unigol oddi mewn iddo. Ein nod oedd helpu i wella'r amgylchedd ffurfiol, trefniadol a diwylliannol lle mae ystadegau o'r fath yn cael eu cynhyrchu.

Ymhlith y dyletswyddau cyffredinol a roddwyd arnom gan y *Framework for National Statistics*, roedd tri ohonynt yn arbennig o bwysig eleni. Dyma'r tri yn fras:

- rhoi sylwadau ar gymhwysiad y *National Statistics Code of Practice*
- adolygu'r angen am ddeddfwriaeth statudol ar ôl dwy flynedd
- ystyried y rhaglen lefel uchel i Ystadegau Gwladol, gan dynnu ar farn defnyddwyr a chyflenwyr.

National Statistics Code of Practice

Mae ffurfio a gweithredu'r *Code of Practice* yn ganolog er mwyn sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn haeddu ymddiriedaeth y cyhoedd. Mae'n rhoi meincnod i'r Comisiwn i fesur yn ei erbyn a oes prosesau addas mewn lle i gynhyrchu a chyhoeddi Ystadegau Gwladol.

Mae cyrraedd sefyllfa lle mae fersiwn terfynol o'r Côd yn ei le ac yn gyhoeddus wedi cymryd llawer rhy hir. Rydym yn cydnabod bod yr Ystadegydd Gwladol a'i dîm wedi gweithio'n galed i gyrraedd lle'r ydym ar hyn o bryd ond roeddem yn disgwyl y byddai peirianwaith llywodraeth yn dangos ymrwymiad cryfach at wneud cynnydd cyflym ar gynhyrchu'r Côd nag y gwnaeth.

Yn hanner cyntaf y flwyddyn buom yn gwneud gwaith ar ein sylwadau cynharach ar y Côd drafft. Rhoesom bwysau cyhoeddus dros gael cyhoeddi fersiwn terfynol y Côd a rhyddhau'r protocolau oedd ar ôl ar gyfer ymgynghori. Cafwyd llwyddiant yn y diwedd pan gyhoeddwyd y Côd ym mis Hydref 2002, ynghyd â dau o'i brotocolau ategol. Roeddem yn falch i weld bod ein sylwadau ynglŷn â'r cyflwyniad a'r sylwedd wedi eu derbyn gan mwyaf. Un canlyniad ardderchog oedd bod Gweithrediaeth yr Alban, o ganlyniad i bwysau'r Comisiwn, wedi penderfynu lleihau eu terfyn amser o ran gweld cyn-cyhoeddi i gyd-fynd â gweddill y DU. Roedd yr unig siom go iawn, ar wahân i'r oedi estynedig cyn i'r Côd ymddangos, yn ymwneud â swyddogaeth y Canghellor yn y Mynegrif Prisiau Adwerthol. Rydym bellach yn dilyn hyn ar wahân (gweler adran 4 o dan 'Mynegeion a Datchwyddwyr Pris').

Ers cyhoeddi'r Côd rydym wedi bod yn pwysu am, ac yn gwneud sylwadau ar brotocolau ategol eraill ac yn codi materion gyda'r SYG am weithredu a gorfodi'r Côd.

Cyhoeddwyd pedwar protocol drafft arall rhwng Tachwedd a Chwefror a gwnaethom sylwadau cyhoeddus ar bob un ohonynt. Roedd y rhain yn ymdrin â:

- Gallu Proffesiynol
- Rheoli Ansawdd
- Adolygiadau ac
- Ymgynghoriad Defnyddwyr.

Wrth i bob protocol gael ei gyhoeddi, roedd darlun fwy a mwy eglur o'r 'amgylchedd reoli' yn dod i'r amlwg. Yn ganolog i hyn i gyd oedd y protocol drafft ar Ymgynghoriad Defnyddwyr. Penderfynom y byddai hwn yn arbennig yn elwa ar drafodaeth gyhoeddus ehangach. Buom yn rhannu'n barn gychwynol ar hyn gyda defnyddwyr mewn gwahanol gyfarfodydd. Roedd eu sylwadau o gymorth i lywio'n hymateb terfynol ni ar sut y gellid cryfhau'r protocol, yn

enwedig wrth gydlynu'r ymgynghoriadau, rhannu ymarfer gorau a gwerthuso. Mae cyfarfodydd o'r fath nid yn unig yn arwain at wella'r sylwadau y gallwn eu gwneud; maent yn ein helpu i godi proffil y protocolau a galluogi grwpiau defnyddwyr ac eraill – nifer ohonynt heb fawr o adnoddau ac yn dibynnu ar ymdrech wirfoddol – i gymryd rhan ac ymateb.

Rydym yn parhau â'r dull hwn gyda gweddill y protocolau, a gyhoeddwyd ar ddiwedd Mawrth 2003, gan drefnu a chymryd rhan mewn cyfarfodydd cyhoeddus os yn briodol. Rydym yn rhagweld y bydd dau faes angen ystyriaeth arbennig o ofalus i sicrhau cael y cydbwysedd cywir rhwng gwahanol fuddiannau:

- Mynediad at Ddata a Chyfrinachedd a
- Rheoli Llwyth Ymatebwr.

Yn y cyfamser rydym wedi datblygu'n syniadau mewn meysydd perthynol sy'n effeithio ar y *Code of Practice*. Nodwyd adroddiad yr Uned Perfformiad a Blaengaredd *Privacy and data-sharing: The way forward for public services* a oedd yn cymryd golwg gynhwysfawr ar faterion preifatrwydd a rhannu data mewn cysylltiad â data gweinyddol. Edrychom ar faterion penodol o reoli datgelu yn y Cyfrifiad. Buom hefyd yn cynnal trafodaethau cychwynnol gydag eraill sydd â diddordeb mewn rheoli costau ar gyflenwyr data, fel Tîm Rheoleiddio Busnes Swyddfa'r Cabinet, a'r CBI. Byddwn yn parhau i gadw llygad barcud ar y maes arbennig hwn yn y flwyddyn sy'n dod.

Nawr bod y Côd mewn grym, mae'n amlwg yn hollbwysig ein bod yn gweithio gyda'r Ystadegydd Gwladol i sicrhau ei fod yn cael ei weithredu'n llawn ac yn ddi-droi'n ôl ar draws y llywodraeth. Mae'r materion allweddol sy'n cael eu trafod yn cynnwys:

- datganiadau adrannol i ddangos cydymffurfiaeth â'r Côd: rydym wedi cytuno i aros nes bod yr Ystadegydd Gwladol wedi cwblhau ei archwiliad o'r datganiadau yma cyn i ni graffu arnynt yn systematig ond rydym wedi codi pwyntiau gyda'r Swyddfa Gartref (SG) a chyda'r Adran Iechyd (AI) lle y bu'r rhain yn berthnasol i faterion penodol yr ydym yn eu hystyried
- trefniadau ar gyfer penodi a gwneud Penaethiaid Proffesiwn yn atebol dros ystadegau mewn adrannau. Mae gan Benaethiaid Proffesiwn, a phrif ystadegwyr mewn gweinyddiaethau datganoledig, swyddogaeth hanfodol mewn gweithredu a gorfodi'r Côd. Mae'n hollbwysig felly bod yna beirianwaith eglur ar gyfer datrys unrhyw wrthdaro sy'n codi rhwng amcanion eu hadran a'u cyfrifoldebau proffesiynol
- trafod canfyddiadau o dorri'r Côd. Rydym yn wylidwrus am doriadau honedig o'r fath, ac wedi gweithredu arnynt – yn arbennig datganiadau wedi eu seilio ar wybodaeth rheoli lleol sy'n rhoi'r argraff bod Ystadegau Gwladol yn cael eu gollwng yn ddethol cyn eu cyhoeddi.

Disgwyliwn y bydd yr Ystadegydd Gwladol yn rhoi trefniadau mewn grym ar gyfer monitro cadw at y Côd a byddwn yn ei gefnogi i geisio cael cydymffurfiaeth drwy'r adeg. Rydym eisoes wedi sôn am enghreifftiau penodol lle mae'n ymddangos i'r Côd gael ei dorri'n gynnar. Trafodir enghreifftiau o hyn o dan 'Rhestrau aros' ac 'Ystadegau trosedd' yn adran 4.

Mae'r elfen hon o'n gwaith yn greiddiol i'n swyddogaeth o helpu i sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn haeddu cael ymddiriedaeth y cyhoedd. Bydd yn ehangu wrth i'r protocolau eraill gael eu cytuno arnynt a'u rhoi ar waith. Disgwyliwn y bydd hyn yn golygu llwyth gwaith sylweddol i'r Comisiwn hyd nes bod y Côd a'r protocolau i gyd yn rhan o sail arferol y llywodraeth. Prin bod gwaith o'r fath yn torri tir newydd a gall hyd yn oed ymddangos yn broses fiwrocraidd. Mewn gwirionedd, fodd bynnag, mae'n sylfaenol bwysig er mwyn sefydlu diwylliant o ymarfer da ar draws y llywodraeth.

Yr angen am ddeddfwriaeth ystadegau

Yn y blynyddoedd diwethaf gwelwyd gwelliannau sylweddol yn y ddarpariaeth o ystadegau swyddogol gyda sefydlu 'brand' ansawdd Ystadegau Gwladol a bellach y *Code of Practice*. Fel yr oedd gofyn i ni ei wneud gan y *Framework for National Statistics*, cychwynnom

adolygiad o'r achos am ddeddfwriaeth ystadegau. Gallai deddfwriaeth o'r fath ddiogelu'r gwelliannau yn barhaol; gall fod angen hefyd adolygu a chyfnerthu'r ystod o ddeddfwriaeth hanesyddol sy'n pennu neu'n effeithio ar y casgliad o wybodaeth ystadegol.

Comisiynwyd ymchwil gennym i ganfod cymaryddion rhyngwladol ac eraill ac i ddisgrifio cwmrawd presennol y ddeddfwriaeth berthnasol. Rydym yn ddiolchgar i'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol am drefnu cyfarfod i ni gyda nifer o arbenigwyr rhyngwladol mewn materion o'r fath. Buom hefyd yn ymgynghori'n eang i gael barn ar y materion mwyaf pwysig i'n hadolygiad ei ystyried. Roedd yr ymatebion yn cadarnhau'n fras ein bod wedi canfod y materion mwyaf pwysig, ond yn tynnu sylw at yr angen i ystyried y pynciau arbennig ar gyfer gweinyddiaethau datganoledig. Roeddent hefyd yn atgyfnerthu'n barn am bwysigrwydd cyfrinachedd a materion sy'n ymwneud â datgelu gwybodaeth am unigolion – er mae'n ymddangos nad oes consensws clir o fewn y gymuned ystadegol ar y math o newid sydd ei angen yma. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod y ddeddfwriaeth bresennol yn rhy gaeth, roedd eraill yn anghytuno.

Yn dilyn trafodaeth ar yr atebion, ym mis Chwefror 2003 bu i ni sefydlu is-bwyllgor a gadeiriwyd gan y comisiynydd Patricia Hodgson i symud yr adolygiad yn ei flaen. Mae gwaith pellach sydd angen yn cynnwys astudiaeth o'r ffyrdd y mae deddfwriaeth bresennol yn effeithio ar allu'r Gwasanaethau Ystadegau Llywodraeth i weithredu'n effeithlon ac effeithiol. Rhagwelwn mai rhywbeth i'r tymor canolig fydd cwblhau'r dasg hon; bydd ymgynghoriad llawn a chael y budd-ddeiliaid i gymryd rhan yn elfen hanfodol o'r gwaith.

Perthnasedd Ystadegau Gwladol

Rhan o'n gorchwyl hefyd yw helpu i wneud yn siŵr bod Ystadegau Gwladol yn ymateb i anghenion y cyhoedd (*Framework for National Statistics*, 4.2.1). Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni adeiladu perthynas gyda defnyddwyr yn ogystal â darparwyr Ystadegau Gwladol, gyda darparwyr data crai a chyda'r gymuned ehangach o'r rheiny sydd angen a sy'n defnyddio ystadegau. Mae'r cyfathrebu yma yn broses ddwyfordd:

- deall eu safbwyntiau, a
- chyfleu ein canfyddiadau a'n casgliadau iddyn nhw.

Rydym yn defnyddio ac yn datblygu'r cysylltiadau hyn mewn ffordd sy'n ceisio cymryd ystyriaeth o brosesau ymgynghori'r Ystadegydd Gwladol ei hun a hynny heb eu tansellio. Gan ein bod yn credu bod yr elfen hon o'n gwaith mor sylfaenol bwysig rydym yn neilltuo adran 5 iddi.

Mae'r wybodaeth a'r dealltwriaeth a gawn gan y cysylltiadau yma yn llywio'n gwaith i gyd ond mae'n arbennig o bwysig i lywio'n sylwadau am y *National Statistics Work Programme* bob blwyddyn. Yn 2002-03 bu i gyfarfod gyda chadeiryddion grwpiau defnyddwyr ac eraill ddylanwadu'n gryf ar ein sylwadau ar yr ail *National Statistics Work Programme* (crynhoir y rhain yn Atodiad 3) ac ar gynigion yr Ystadegydd Gwladol i newid trefniadau ar gyfer rhoi'r rhaglenni yma ar waith. Byddwn yn trafod ymhellach gydag ef sut y gellir gwella gweithio'r system gynllunio Ystadegau Gwladol er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu gosod mewn modd ymatebol, tryloyw ac amserol.

4. Gwaith y Comisiwn yn 2002-03: materion a ddewiswyd i'w harchwilio

Mae ein rhaglen o ymchwilio, adolygu a chasglu gwybodaeth yn crynhoi tystiolaeth ar faterion penodol i gefnogi'n safbwynt ar bolisi. Gan ddibynnu ar raddfa a natur y gwaith, gallwn gomisiynu ymgynghorwyr o'r tu allan. Yn ystod y flwyddyn sy'n dod byddwn yn dilyn dull mwy strategol yn ein rhaglen ymchwil tymor hir, yn dewis pynciau a themâu ar draws Ystadegau Gwladol. Bydd yr agwedd hon o'n gwaith yn cael ei goruchwyllo gan is-bwyllgor o dan arweiniad y comisiynydd Martin Weale.

Rhan bwysig o'n gwaith yw edrych ar lefydd lle mae hyder y cyhoedd wedi ei ysgwyd a gweld lle y gellid gwella arferion er mwyn lleihau y tebygolrwydd o hyn ddigwydd eto. Buom felly yn gofyn am eglurhad gan yr Ystadegydd Gwladol a chan y llywodraeth lle yr oeddem yn meddwl bod y naill neu'r llall o'r sefyllfaoedd yma wedi digwydd. Daethpwyd â rhai o'r problemau i'n sylw'n uniongyrchol gan unigolion a chyrrff neu drwy'r cyfryngau. Ymhlith y rhai amlwg eleni mae'r Cyfrifiad Poblogaeth, triniaeth *Network Rail* yn y Cyfrifon Gwladol, rhestrau aros y Gwasanaeth Iechyd, pensiynau, Credydau Treth Aelwydydd a graddfeydd mynediad cychwynnol addysg uwch. Rydym yn egluro isod sut yr aethom ati i ddelio â nhw.

Y Cyfrifiad Poblogaeth

Mae canlyniadau'r Cyfrifiad yn brifran ddyraniad o dros £40 biliwn gan lywodraeth ganolog i lywodraeth leol bob blwyddyn. Byddant hefyd yn cael eu defnyddio am bron i ddegawd ar gyfer cynllunio gwasanaethau yn y tymor hir ar bob lefel o lywodraethau datganoledig i gymunedau lleol. Felly mae ganddynt oblygiadau i bawb yn y DU. Cafodd canlyniadau cychwynnol Cyfrifiad 2001 eu cyhoeddi ym mis Medi 2002 ac mae'n debyg mai dyma'r Ystadegau Gwladol a ysgogodd y mwyaf o ddiddordeb yn ystod y flwyddyn.

Mae'n gwaith ar y Cyfrifiad yn disgyn i ddau brif faes: materion sy'n codi o Gyfrifiad 2001 a dyfodol gweithgareddau fel y Cyfrifiad. Codwyd dau bwnc penodol gyda ni gan ddefnyddwyr y data: pa mor gywir oedd y ffigurau i rai awdurdodau lleol a'r dull a ddefnyddiwyd i sicrhau bod data personol yn cael ei gadw'n gyfrinachol.

Pa mor ddibynnol yw ffigurau'r Cyfrifiad

Gwelodd nifer o awdurdodau lleol ostyngiadau sylweddol mewn poblogaeth fel ag y cafodd ei fesur gan y Cyfrifiad o'i gymharu â'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn blaenorol. Gallai hyn ostwng – yn ddirfawr mewn rhai achosion – maint y grant oedd yn cael ei dderbyn oddi wrth y llywodraeth ganolog. Gofynnodd Cyngor Dinas Westminster, a welodd y cwmp mwyaf mewn poblogaeth (gweler y tabl isod), i'r Comisiwn archwilio'r mater. Gan ddefnyddio'r canlyniadau Cyfrifiad i'r cyngor hwnnw fel enghraifft, rydym yn ystyried tystiolaeth a ddarparwyd gan y gwahanol bobl y mae a wnelont â'r peth ar a gafodd y Cyfrifiad ei wneud yn iawn a pha wersi sydd i'w dysgu i'r dyfodol. Disgwyliwn adrodd ar ein canfyddiadau, mewn camau mae'n debyg, rhwng haf a hydref 2003.

Poblogaeth Cyfrifiad 2001 o'i gymharu ag amcangyfrifon canol-blwyddyn 2000: 8 Awdurdod Lleol yn Lloegr oedd â'r gwahaniaeth canran absoliwt mwyaf

<i>Awdurdod Lleol</i>	<i>Amcangyfrifon poblogaeth canol 2000</i>	<i>Poblogaeth diwrnod y Cyfrifiad 2001</i>	<i>% Gwahaniaeth</i>
Westminster	244,600	181,300	-25.9%
Forest Heath	70,800	55,500	-21.6%
Kensington a Chelsea	190,300	158,900	-16.5%
Cambridge	124,400	108,900	-12.5%
Richmond upon Thames	195,100	172,300	-11.7%
Manceinion	439,500	392,800	-10.6%
Rhydychen	149,100	134,200	-9.9%

Dinas Llundain 6,400 7,200 +12.8%

Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol. Rhifau wedi eu talgrynnu i'r 100 agosaf.

Cyfrinachedd

Gyda thechnoleg mwy a mwy soffistigedig yn cael ei defnyddio i drafod a lledaenu Ystadegau Gwladol, mae modd dadansoddi'r data a gasglwyd yn fwy manwl nag o'r blaen. Ond mae hyn hefyd yn codi'r posibilrwydd, damcaniaethol, o allu adnabod unigolion a lenwodd y ffurflenni Cyfrifiad ee trwy gymharu gwahanol dablau Cyfrifiad. Mae cyfrinachedd data personol – a chred y cyhoedd ei fod yn gyfrinachol – yn hanfodol i warchod preifatrwydd unigolion yn eu hymdrin â'r wladwriaeth – ac, yn fwy ymarferol, os ydym am i bobl gymryd rhan mewn unrhyw gyfrifiadau yn y dyfodol. Ond mae gormod o addasu neu gadw data manwl yn ôl i'w warchod rhag cael ei ddatgelu, yn gallu peryglu ei werth. Roedd defnyddwyr yn bryderus felly pan benderfynodd yr Ystadegydd Gwladol yn hwyr yn y gwaith o brosesu'r Cyfrifiad, ei fod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer rheoli datgeliad. Roeddem yn cydnabod y penderfyniadau technegol anodd yr oedd hyn yn ei olygu ond yn ei annog i flaenoriaethu anghenion defnyddwyr wrth benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r broblem. Newidiodd ei dull yng ngoleui'n sylwadau ni a rhai defnyddwyr.

Yn ystod y trafodaethau yma, sylwyd gennym bod Cofrestrydd Cyffredinol yr Alban yn cymryd agwedd wahanol at ddatgelu. Rydym yn poeni am oblygiadau defnyddio gwahanol fethodoleg ar draws y DU a byddwn yn dychwelyd at yr anghysondeb hwn a'r fframwaith gyfreithiol sydd mewn grym mewn gwahanol rannau o'r DU.

Dyfodol y Cyfrifiad

Buom hefyd yn edrych ar nifer o faterion strategol o ran dyfodol y Cyfrifiad Poblogaeth. Crynhoir y prif faterion ar ffurf cwestiynau isod:

- ydyn ni angen Cyfrifiad o gwbl, o ystyried ffyrdd arall o ddyrannu adnoddau?
- ydyn ni angen Cyfrifiad traddodiadol i gasglu'r wybodaeth angenrheidiol?
- ydi Cyfrifiad traddodiadol yn gofyn y cwestiwn/cwestiynau iawn?
- all data gweinyddol gael ei ddefnyddio yn lle neu yn ogystal â'r Cyfrifiad?
- ar ba ffurf ddylai unrhyw Gyfrifiad yn y dyfodol fod?

I feddwl am hyn ymhellach, fe gomisiynwyd gennym astudiaeth arolwg gyffredinol a rhannwyd y canlyniadau gyda Swyddfa'r Cyfrifiad. Mae'r ymarfer rhagofal yma yn parhau: rydym yn trefnu cynhadledd undydd yn gyfeiriedig at bolisi yn yr hydref ar yr anghenion tebygol am wybodaeth ystadegol o'r math yma erbyn 2011.

Network Rail

Pan oedd *Network Rail* yn cael ei sefydlu fel olynnydd i *Railtrack plc*, roedd angen penderfynu sut y byddai'r corff newydd hwn – a oedd yn cynnwys nodweddion o'r sector gyhoeddus a'r un breifat – yn cael ei ddsbarthu yn y Cyfrifon Gwladol.

Penderfynodd y SYG y dylid trin *Network Rail* fel cwmni sector breifat. O ganlyniad, cafodd gwarantau yr Awdurdod Rheilffordd Strategol (*Strategic Rail Authority*) eu trin fel ymrwymadau annisgwyl ac felly ni chawsant eu dangos fel dyled llywodraeth yn y Cyfrifon Gwladol. Seiliwyd hyn ar reolau'r System Gyfrifo Ewropeaidd (ESA95), y mae'n rhaid i'r DU ei dilyn i ddarparu sail gyson ar gyfer cymariaethau rhyngwladol. Cafodd y dyfarniad ei herio gan nifer o sylwebyddion, yn enwedig unwaith i'r Goruchwyliwr a'r Archwiliwr Cyffredinol (C&AG) – gan ddefnyddio safonau cyfrifo masnachol fel sy'n gymwys i'r llywodraeth – ddod i'r casgliad y dylai *Network Rail* gael ei gyfrif fel is-gwmni o'r SRA.

Ystyriwyd y materion gan y Comisiwn a daeth i'r casgliad bod y SYG wedi gwneud gwaith gonest a thrwyadl wrth weithio o fewn rheolau ES95. Ond galwom ni am eglurhad unigol, cyhoeddus, clir am y rhesymau dros y dulliau gwahanol.

Nid oedd y datganiad ar y cyd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Archwiliad Gwladol a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cwrdd â'n cais yn ei gyfanrwydd. Gofynnwyd felly am gysoniad cyffredinol a chyhoeddus o effaith y ddwy driniaeth wahanol, yn cynnwys datganiad tryloyw am pryd a pham y dylid defnyddio'r naill yn hytrach na'r llall. Yn dilyn cais i Ysgrifennydd y Cabinet, cawsom eglurhad gan Drysorlys Ei Mawrhydi a'r Adran Drafnidiaeth. Roedd y nodyn hwn yn cadarnhau, er bod *Network Rail* yn cael ei ddsbarthu fel sector breifat yn y Cyfrifon Gwladol yn unol â chonfensiynau rhyngwladol, bod yna atebolrwydd posibl sylweddol a allai ddisgyn ar y trethdalwr.

Fel y dywedodd ein Cadeirydd ym mis Rhagfyr '... ychydig o wir bwysigrwydd sydd yn nodyn Y Trysorlys a'r Adran Drafnidiaeth na allai fod wedi cael ei ddweud ym mis Gorffennaf.' Rhoddodd yr oedi yma danwydd i'r syniad nad oedd y cyhoedd yn cael yr hanes plaen.

Roeddem yn falch bod Pwyllgor y Trysorlys wedi cefnogi'n pryderon pan ddywedodd: 'Rydym yn cytuno gyda'r Comisiwn Ystadegau yn yr amgylchiadau yma, lle mae'n ymddangos bod dwy broses wahanol sy'n seiliedig ar yr un ffeithiau wedi cynhyrchu canlyniadau sy'n gwrth-ddweud ei gilydd, sef a yw *Network Rail* yn y sector gyhoeddus neu breifat, bod y baich ar y partiön dan sylw i unioni eu gwahanol safleoedd ac egluro'r rhesymeg dros hyn i'r cyhoedd.'
National Statistics: The Classification of Network Rail, HC 154, Ionawr 2003.

Gan edrych i'r dyfodol, rydym yn sicr y bydd achosion eraill yn codi sy'n agos i'r ffin draddodiadol rhwng y sector gyhoeddus a phreifat – er enghraifft ysbytai gwaddoledig. Byddwn yn parhau i bwysu am ddatganiadau clir sy'n egluro unrhyw ymrwymadau i gael eu gwneud yn gyhoeddus yn gynnar yn y broses. Dylai fod darlun llawn o ymrwymadau ar gael fel rhan o adrodd yn ôl y llywodraeth ac rydym yn disgwyl i hyn ddigwydd o fewn Cyfanrwydd Cyfrifon y Llywodraeth. Ar hyn o bryd disgwylir y rhain yn y flwyddyn ariannol 2005-06.

Rhestrau aros

Yn Ebrill 2002, cyhoeddodd prif weithredydd y Gwasanaeth Iechyd ei adroddiad i'r Gwasanaeth Iechyd, yn cynnwys ffigyrau rhestr aros heb eu harchwilio a oedd wedi eu seilio ar wybodaeth rheoli. Dangosodd y rhain mai dim ond dau berson gafodd eu cadw am fwy na 15 mis am driniaeth yn y Gwasanaeth Iechyd yn Lloegr. Pan gyhoeddwyd Ystadegau Gwladol terfynol am niferau'n aros ar ddiwedd Mawrth ym mis Mai 2002, roedd y gwir ffigwr yn nes at 200 – ond ni chafodd y ffigwr hwn hanner cymaint o sylw ar wefan yr Adran Iechyd. Ysgrifennodd y cadeirydd yn mynegi pryder am y ffaith, drwy roi gwybodaeth reoli dethol yn llygaid y cyhoedd mewn ffordd a fyddai'n amlwg yn denu mwy o gyhoeddusrwydd na'r ffigyrau cywir a ryddhawyd yn hwyrach, bod yn golygu bod prif weithredydd y Gwasanaeth Iechyd wedi rhoi ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau swyddogol mewn perygl a'i fod wedi tanseilio bwriadau'r Llywodraeth fel ag y'u hamlinellwyd yn y *Framework for National Statistics*.

Derbyniom – a chrosawu – ymateb positif (gweler isod). Cafodd yr adroddiad nesaf i'r Gwasanaeth Iechyd ei ategu gan atodiad ystadegol a gynhyrchwyd yn broffesiynol. Ni chafodd yr atodiad hwn ei labelu fel Ystadegau Gwladol ond serch hynny mae'n ddatblygiad i'w groesawu. Disgwylw'n y bydd modd dod ag ef yn llwyr o fewn Ystadegau Gwladol mewn amser.

'Rwy'n awyddus i weld nad ydym yn tanseilio bwriadau'r Llywodraeth fel ag y'u hamlinellwyd yn y *Framework for National Statistics* ac yn cefnogi'n llawn ymdrechion i roi cig a gwaed ar weithdrefnau a ddylai fod yn gymwys o ran cael mynediad blaenorol at wybodaeth ystadegol at ddibenion rheoli.'

Nigel Crisp, prif weithredwr, Gwasanaeth Iechyd Gwladol, 19 Mehefin 2002, mewn llythyr i'r cadeirydd

Cafodd pwysigrwydd ystadegau rhestrau aros ei atgyfnerthu gan fater gwahanol a ystyriwyd yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Trafododd David Laws AS gyda ni bryderon ei etholwyr nad oedd ystadegau ar gleifion oedd yn disgwyl mynd i'r ysbyty i gael triniaeth yn cyfleu'r profiad aros llawn gan bobl a oedd o bosib wedi gorfod aros hefyd am ymgynghoriadau claf allanol a phrofion diagnostig. Mae hyn yn cysylltu â phwyntiau a wnaed gennym yn adroddiad blynyddol y llynedd ar fonitro Cynllun Canser y Gwasanaeth Iechyd. Rydym wedi codi cwestiynau gyda'r Adran Iechyd am eu cynlluniau i fynd i'r afael â'r casgliad o ddata ar y cyfnod aros llawn a byddwn yn dilyn hyn i fyny.

Mae'r Comisiwn yn gweld ystadegau rhestrau aros fel enghraifft bwysig o bwnc ehangach: pan fo llywodraeth yn gosod targedau iddi ei hun, mae angen iddi sicrhau eu bod yn ystyrllon, nad ydynt yn ystumio cymelliannau a bod modd eu mesur yn gywir. Mae hyn yn hanfodol i fod yn berffaith atebol i'r cyhoedd.

Targedau'r Llywodraeth a'u sail ystadegol

Rydym wedi dod ar draws nifer o feysydd lle nad yw Ystadegau Gwladol yn ddigonol ar hyn o bryd i fonitro cyflawniad targedau llywodraeth. Mae hyn naill ai oherwydd nad yw'r Ystadegau Gwladol perthnasol yn bodoli neu oherwydd iddynt gael eu llunio at ddiben gwahanol. Hyd y gwyddom ni, ychydig o wybodaeth sydd ar gael yn hawdd ar i ba raddau y mae hyn yn wir yn gyffredinol. Yn niffyg gwybodaeth llinell sylfaen dda, mae'r dadleuon anochel ynglŷn ag a ydi targedau o'r fath wedi cael eu cwrdd yn debyg o danseilio hyder y cyhoedd yn y llywodraeth.

O ganlyniad i'n pryderon cyffredin, mae'r Ystadegydd Gwladol wedi sefydlu Grŵp Gwasanaeth Ystadegol traws-Lywodraeth i edrych ar y materion yma a rhai perthynol. Bu'r cynnydd yma'n arafach nag yr hoffem. Rydym hefyd wedi mynegi'n pryderon yn fwy eang, gan gynnwys cynnig tystiolaeth i'r Pwyllgor Dethol ar Weinyddiaeth Gyhoeddus. Rydym yn cynnal cynllun peilot i asesu i ba raddau y gellir defnyddio Ystadegau Gwladol i fonitro targedau Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ganolbwyntio ar y targedau hynny a osodwyd i'r Adran Addysg a Sgiliau. Ochr yn ochr â hyn, rydym yn noddi'r Gynhadledd i Ddefnyddwyr Ystadegau ym mis Tachwedd 2003 a fydd yn hoelio sylw ar agweddau ystadegol mesur perfformiad y llywodraeth.

Ystadegau pensiwn

Mae'r datblygiadau mewn pensiynau personol, galwedigaethol a gwladwriaethol – sy'n rhannol yn adlewyrchu newidiadau demograffig ym mhoblogaeth y DU – wedi bod yn ddramatig ac wedi peri pryder i'r rhan fwyaf o ddinasyddion Prydain yn y blynyddoedd diwethaf. Mae cwmnïau, cronfeydd pensiwn, y llywodraeth a'r dinesydd i gyd angen cael gwybodaeth gywir, ddibynadwy ar gyfer seilio eu penderfyniadau ar faterion pensiwn.

Roedd hi'n fater o bryder arbennig felly pan gododd nifer o broblemau yn ystod y flwyddyn oedd yn ymwneud ag ystadegau'r SYG ar gronfeydd pensiwn. Rydym ni, ac eraill, wedi codi, a byddwn yn dal i fynd ar ôl cwestiynau am y materion yma. Comisiynodd yr Ystadegydd Gwladol ac mae bellach yn gweithredu canlyniadau'r *Review of ONS Pension Contribution Statistics*. Byddwn yn monitro'r gweithredu yma. Byddwn hefyd yn parhau i drafod gydag ef a budd-ddeiliaid eraill er mwyn gwneud yn siŵr bod gan y cyhoedd y wybodaeth angenrheidiol yn y maes hollbwysig hwn o bryder cyhoeddus a'i bod yn cael ei chyflwyno'n glir ac yn ddiamwys.

Credydau Treth Aelwydydd

Ymyrrodd y Comisiwn gyda'r Trysorlys i geisio eglurhad cliriach er budd trethdalwyr am y Credydau Treth Teuluoedd sy'n Gweithio a'r Credydau Treth Person Anabl. Caiff y rhain eu dosbarthu fel gwariant cyhoeddus gan y SYG yn y Cyfrifon Gwladol, tra bod y Trysorlys wedi eu dosbarthu fel trethiant negyddol (i'r graddau y maent yn llai na, neu'n hafal i, ymrwymyadau

treth yr aelwyd) i'w mesur cymhareb treth fel ag y cyflwynwyd yn yr *Adroddiad Cyllideb*. Cytunodd Ysgrifennydd Parhaol y Trysorlys â'r pwyntiau a wnaed gan y Comisiwn a chynhwyswyd eglurhad estynedig o'r gwahaniaethau yn *Adroddiad Cyn-Cyllideb 2002*.

Gwnaed i ffwrdd â'r credydau treth arbennig yma yn Ebrill 2003 felly mae'r broblem yn un hanesyddol bellach. Ond bydd y Comisiwn yn parhau i fonitro unrhyw wahaniaethau dosbarthiad sylweddol i sicrhau bod y rhesymau drostynt yn cael eu hegluro, bod eu harwyddocâd yn cael ei ddeall a bod cydgordio'n cael ei wella lle y bo modd.

Cyfraddau mynediad cychwynnol addysg uwch

Wedi i'r Llywodraeth gyhoeddi targed o 50 y cant o bobl ifanc a ddylai dderbyn addysg uwch erbyn 2010, codwyd cwestiynau yn y wasg am sut y byddai addysg uwch yn cael ei ddiffinio, hy pa gyrsiau yn union y dylid eu cynnwys. Yn dilyn pwysau gan y Comisiwn, penderfynodd yr Adran Addysg a Sgiliau drin hyn fel mater Ystadegau Gwladol ac mae Adolygiad Ansawdd Ystadegau Gwladol wrthi'n cael ei wneud. Rydym yn edrych ymlaen at weld adroddiad yr adolygiad hwn cyn bo hir.

Mynegeion a datchwyddwyr pris

Gwnaethom astudiaeth cwmpawd ar y mynegeion a'r datchwyddwyr pris a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Roedd yr astudiaeth yn cydnabod y cymhlethdodau o ran methodoleg a thechnoleg yn y maes hwn. Roedd hefyd yn atgyfnerthu'n casgliadau cynharach am yr angen am datchwyddwyr rhanbarthol. Daethom i'r casgliad fodd bynnag, yng ngoleuni'r gwaith oedd ar y gweill gan y SYG yn barod, nad oedd angen i ni gynnal astudiaeth sylweddol.

Cadarnhaodd ein gwaith ein pryder oesol am swyddogaeth Canghellor y Trysorlys yn y Mynegrif Prisiau Adwerthol. O dan y *Framework for National Statistics*, mae'r Ystadegydd Gwladol yn cymryd yr arweiniad mewn cynghori ar gwestiynau methodolegol am y Mynegrif. Ond mae cwmpawd a diffiniad y mynegrif yn dal i fod yn faterion i Canghellor y Trysorlys. Mae hyn yn eithriad; nid oes gan unrhyw weinidog arall swyddogaeth o'r fath mewn diffinio Ystadegyn Gwladol. Buom yn pwysu, a byddwn yn dal i bwysu, am eglurhad clir o'r rhesymau dros y swyddogaeth arbennig hon a sut mae'n gweithio yn ymarferol. Sylwom gyda diddordeb ar sylwadau'r Canghellor yn ei ddatganiad cyllideb am y defnydd posibl yn y dyfodol o'r Mynegrif Cydgordioli o Brisiau Defnyddiwr – ystadegyn a ddefnyddir gan eraill yr yr Undeb Ewropeaidd a phob un o wledydd yr G7 heblaw Siapan.

Cyfrifon rhanbarthol

Y llynedd bu i ni adrodd ar yr astudiaeth fer a wnaed gennym i ganfod materion allweddol y dylid ymdrin â hwy yn adolygiad ansawdd Ystadegau Gwladol o gyfrifon rhanbarthol, ar gyfer ei raglen 2001-02. Rydym yn dal i ddisgwyl i'r adolygiad ansawdd gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn siom fawr. Yn y cyfamser, mae problemau eraill wedi codi ac rydym yn dal i ddisgwyl i'r Ystadegydd Gwladol wneud datganiad ar amseriad cyhoeddi data Cynnyrch Mewnwladol Crynswth rhanbarthol 2000-01 neu ail-gyhoeddi data 1989-99 a dynnwyd ymaith yn Rhagfyr 2002. Rydym yn cydnabod, fodd bynnag, bod yr Ystadegydd Gwladol yn haeddu'n cefnogaeth am y ffordd agored y bu iddo gyfaddef i'r gwendidau presennol ac ymrwymo'r SYG i wella'r ystadegau yma.

Mae'n adnabyddiaeth ni o hwn fel maes pwysig wedi ei gadarnhau gan y Canghellor, sydd wedi comisiynu Christopher Allsopp i adolygu Gofynion Ystadegol ar gyfer Gwneuthur Polisi Ariannol ac Economaidd Ehangach. Rydym yn edrych ymlaen at drafod materion sydd o bryder i'r ddwy ochr gyda Mr Allsopp. Mae'r holl bwyntiau a godwyd yn adroddiad 2001 y Comisiwn yn berthnasol i astudiaeth Allsopp ond mae'r pumed (ar datchwyddwyr CMC rhanbarthol) – nad oedd yr SYG ar y pryd yn teimlo y gallai ei drafod oherwydd cyfyngiadau adnoddol – yn arbennig felly.

Ystadegau troseddu

Er bod llawer o sylwadau'n cael eu gwneud yn y wasg am pa mor ddibynnol yw ystadegau troseddu – a phroblemau mesur annatod yn y maes hwn – nid ydym eto wedi gweld tystiolaeth sy'n peri pryder mawr.

Ond rydym wedi codi materion am y ffordd y mae Ystadegau Gwladol ar droseddu'n cael eu cyhoeddi. Roedd ein pryder yn ymwneud yn bennaf am gyhoeddi gwybodaeth reoli: roedd y Swyddfa Gartref yn teimlo gorfodaeth yn sgil sylwadau di-sail gan y wasg i gyhoeddi set o ffigyrau interim ar droseddau stryd. Ymatebodd yr Ysgrifennydd Cartref i bryderon ein cadeirydd, gan gydnabod y materion anodd oedd dan sylw.

Mae ffigyrau troseddu yn un enghraifft dda o broblem gyffredinol – lle mae data rheoli lleol ar gael cyn Ystadegau Gwladol sydd wedi eu crynhoi a'u gwirio'n broffesiynol. Yn yr amgylchiadau hyn, maent yn aml yn cael eu crynhoi gan y wasg. Weithiau caiff hyn ei wneud drwy ddefnyddio dulliau anaddas a gwiriadau ansawdd annigonol. Yn aml mae'n rhoi'r argraff o wneud Ystadegau Gwladol yn hysbys cyn eu cyhoeddi. Rydym yn cydnabod nad oes ateb hawdd ond byddwn yn monitro llwyddiant adrannau'r llywodraeth mewn osgoi problemau o'r fath (gweler adran 6).

Roeddem yn poeni mwy fodd bynnag am y ffordd y bu i'r Swyddfa Gartref drafod *Statistics on Race and the Criminal Justice System / Ystadegau ar Hil a'r System Cyfiawnder Troseddol*. Tynnwyd hwn o Ystadegau Gwladol gan yr Ystadegydd Gwladol oherwydd pryderon am ansawdd y data; rydym yn deall ac yn cymeradwyo gweithred o'r fath. Ond roeddem yn pryderu am yr oedi dilynol mewn cyhoeddi, o'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, unwaith bod y rhain y tu allan i gaethiwed rheolau Ystadegau Gwladol. Deallwn bod hyn er mwyn galluogi gweinidogion i gysylltu cyhoeddi'r ystadegau yma â'r ymateb polisi cadarnhaol. Mae'r oedi hwn yn codi cwestiynau am i ba raddau y dylai arferion cyhoeddi Ystadegau Gwladol ddal i fod yn wir am ddata sy'n bwysig o ran cyflwyno polisi a gwasanaeth, hyd yn oed pan fo'n rhaid tynnu'r data yna am y tro o Ystadegau Gwladol yn sgil pryderon am ansawdd. Rydym wedi codi hyn gyda'r SYG, ynghyd â'r cwestiwn cysylltiedig o sut y dylid cyhoeddi ac egluro tynnu pynciau allan o Ystadegau Gwladol.

Cyfleu dibynadwyedd Ystadegau Gwladol

Ers i ni gael ein sefydlu yn 2000 rydym wedi talu sylw i wneud Ystadegau Gwladol yn addas i'w diben. Mae'n wir i ddweud mai ychydig o ystadegau, os o gwbl, sy'n 100 y cant berffaith gywir. Gan bod y rhan fwyaf yn amlbwrpas mewn gwirionedd, gall defnyddwyr ddim ond barnu 'addasrwydd' ystadegau os oes ganddynt wybodaeth dda am pa mor ddibynnol ydynt. Yn ystod 2002-03, gwnaethom astudiaeth, yn gweithio gydag asiantaeth llywodraeth a wirfoddolodd ac adran lywodraeth (Asiantaeth Gwasanaethau Dadansoddol Amddiffyn a'r Adran Addysg a Sgiliau), i ymchwilio i sut y gallai gwaith SYG yn y maes hwn gael ei gymhwyso mewn adrannau eraill. Byddwn yn trafod canlyniad yr astudiaeth hon gyda'r Ystadegydd Gwladol ac mae gwaith pellach yn yr arfaeth. Waeth pa mor anodd ydynt i'w cynhyrchu, mae'n rhaid bod disgrifiadau ystyrlon a dealladwy o ansawdd a dibynadwyedd Ystadegau Gwladol ar gael. Er enghraifft, credwn y dylai'r SYG ddarparu gwybodaeth weithredol ar ddata blaenorol a adolygwyd fel Cynnyrch Mewnwladol Crynswth sy'n cael eu cyhoeddi mewn sypiau dilynol i amserlen reolaidd.

Pynciau eraill a astudiwyd

Cawsom ran mewn nifer o bynciau a phroblemau eraill, weithiau rhai llai hanfodol, yn 2002-03. Mewn rhai meysydd roeddem yn gwbl fodlon â'r hyn a welsom neu'n fodlon bod yr Ystadegydd Gwladol yn mynd i'r afael â'r mater yn effeithiol, bod esboniadau cywir wedi cael eu rhoi i'r cyhoedd ac nad oedd angen camau pellach ar ein rhan am y tro. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- ein hastudiaeth o a yw'r Arolwg Aelwydydd Cyffredinol bellach yn cwrdd ag anghenion defnyddwyr. Daethom i'r casgliad bod y defnyddwyr yn croesawu newidiadau diweddar i'r astudiaeth hon
- yn dilyn ein harchwiliad o bryderon defnyddwyr am agweddau o'r *Review of the Framework for Labour Market Statistics*, roeddem yn fodlon gydag esboniadau'r Ystadegydd Gwladol ac fe'i hanogom i gyfleu'r rhain i'r defnyddwyr
- ein hastudiaeth o ddibynadwyedd ffigyrau ar CMC fel mesur o dwf economaidd. Daethom i'r casgliad nad oedd achos pryder go iawn ond na allem ffurfio barn bendant nes bod y set gyflawn o adolygiadau ansawdd wedi eu cwblhau
- ein hastudiaeth o'r ffordd y mae cyfraddau'r Swyddfa Gartref (SG) o ail-droseddu gan ieuencid yn cael eu cyfrifo, ac eithrio ieuencid a ddedfrydwyd i garchar. Derbyniom eglurhad y SG nad oedd ganddynt le i gredu y byddai eithrio'r rhain wedi cael effaith sylweddol ar y prif ffigyrau. Roeddem yn croesawu eu cydnabyddiaeth y gallai'r eglurhad fod wedi cael mwy o sylw cyhoeddus.

Comisiynwyd gennym hefyd astudiaeth gwmpawd ar ragfynegi, yn canolbwyntio ar Gyfrifon Gwladol. Mae'r Comisiwn bellach yn astudio'r adroddiad ac yn ystyried pa argymhellion ychwanegol y mae'n dymuno eu gwneud i'r Ystadegydd Gwladol.

Yn ychwanegol at hyn, buom hefyd yn dilyn pwyntiau a godwyd gennym mewn blynyddoedd cynt lle nad oeddem eisoes wedi cael datrysiad boddhaol. Er enghraifft, yn dilyn o'n hadroddiad yn 2001 ar addasiad tymhorol, mae Pwyllgor Polisi Ystadegau'r SYG wedi cytuno mai'r dull technegol X12-ARIMA fydd y dull safonol ar gyfer addasu'n dymhorol yn y SYG. Ond hyd yma nid oes dyddiad ar gyfer ei weithredu.

5. Cyfathrebu â defnyddwyr a chwaraewyr allweddol eraill

Yn ganolog i lwyddiant y Comisiwn mae cyfathrebu da gyda budd-ddeiliaid. Golyga hyn bod angen cyfarfodydd o dro i dro – rhai yn rheolaidd, eraill wedi eu trefnu i edrych ar ryw fater arbennig – gyda'r budd-ddeiliaid yma. Mae'r adran hon yn crynhoi'r hyn yr ydym wedi ei archwilio gyda'r grwpiau yr ydym yn cwrdd â nhw'n fwyaf aml.

Fel ag y dangoswyd yn yr adran flaenorol, rhan bwysig o'n swyddogaeth yw ystyried a ydi anghenion gwahanol aelodau'r gymuned ystadegau yn cael eu cwrdd, yn ddefnyddwyr a chynhyrchwyr. Ar gyfer rhai o'r rhain mae gennym lwybrau cyfathrebu penodol, fel drwy grwpiau defnyddwyr ystadegau a'r Cyngor Defnyddwyr Ystadegau, drwy'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol i ystadegwyr proffesiynol, drwy gynghorau ymchwil i'r gymuned ymchwil – ac wrth gwrs drwy'r Ystadegydd Gwladol i Wasanaeth Ystadegol y Llywodraeth.

Sylw yn y cyfryngau

Mae'n fwy anodd penderfynu sut mae cyrraedd dinasyddion y wlad hon. A yw'r wybodaeth angenrheidiol ganddynt i wneud penderfyniadau bywyd? Ydi Ystadegau Gwladol yn haeddu ein hymddiriedaeth? Mae Is-bwyllgor y Trysorlys yn gweithredu ar ran y cyhoedd mewn ffordd ac rydym yn cymryd eu pryderon yn ein trafodaethau gyda'r Pwyllgor bob blwyddyn o ddifrif (gweler isod). Rydym hefyd yn ymateb i ymholiadau gan unigolion am bryderon penodol. Ond mae'n debyg mai drwy'r cyfryngau y gallwn gael yr effaith fwyaf ar y cyhoedd.

Roeddem eisoes yn ymwybodol o'r angen i godi proffil y Comisiwn. Atgyfnerthwyd hyn gan neges a ddaeth i'r amlwg yn y Cyfarfod Agored ym mis Gorffennaf 2002, fel ag y dangosir yn y dyfyniad isod. Ein hagwedd wreiddiol oedd penderfynu siarad yn gyhoeddus dim ond pan oedd gennym rywbeth gwerth chweil a dibynadwy i'w ddweud, a pheidio â rhoi sylwadau'n syth ar bob pwnc a oedd yn codi. Mewn gwirionedd, mae'n hagwedd wedi newid wrth i'r Comisiwn grynhoi casgliad o astudiaethau ac felly wedi cael mwy i'w ddweud cyn i bynciau godi. Gwelir hyn mewn cyhoeddi datganiadau i'r wasg ar adroddiadau a sylwadau ar bynciau pwysig. Eleni gwelwyd cynnydd yn y sylw a gawsom yn y wasg ac yn nifer yr ymholiadau cefndir a gawsom gan newyddiadurwyr. Mae mwyafrif yr ymholiadau'n deillio o faterion sy'n cael sylw uchel fel *Network Rail*.

'Mae'r darlun a roddwyd yn adroddiad blynyddol y Comisiwn ac yn y cyflwyniadau yn y cyfarfod hwn yn un o gorff gweithredol iawn. Mae hyn yn wahanol i'r syniad sydd gan gryn dipyn o'r gymuned ddefnyddwyr ei fod yn gorff goddefol, er gwell neu er gwaeth a heb ddannedd ar brydiau... Ydi'r Comisiwn yn poeni bod yna wahaniaeth rhwng yr hyn mae'n ei wneud a'r hyn y mae'r gymuned ddefnyddwyr yn credu ei fod yn ei wneud?

Rob Clements, Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin: cwestiwn a ofynnwyd yng Nghyfarfod Agored y Comisiwn ar 17 Gorffennaf 2002

Datblygu gwefan

Y tu hwnt i'r cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb (gweler isod) a'n cysylltiadau â dinasyddion drwy'r cyfryngau, credwn bod y we yn ffordd hollbwysig o gyfathrebu. Ceisiwn roi pob un o ddogfennau pwysig y Comisiwn ar ein gwefan yn gyflym a chyflawnasom y nod hon yn 2002-03. Cafodd gwefan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ei hail-wampio'n llwyr yn 2002-03. Rydym wrthi'n ail-gynllunio'n safle ein hunain i wneud chwilio'n haws, i annog eraill i gysylltu â'n safle ac i wella mynediad drwy'r prif beiriannau chwilio fel bod y rheiny nad ydynt yn gyfarwydd â'n gwaith yn fwy tebyg o ddod o hyd i ni a'r defnydd sydd angen arnynt.

Rhyngweithio gyda budd-ddeiliaid

Mae perthynas y Comisiwn â nifer o fudd-ddeiliaid allweddol yn y byd ystadegol wedi tyfu yn y flwyddyn a aeth heibio. Ond rydym yn cydnabod bod gennym lawer i'w wneud i adeiladu perthnasau hyd yn oed yn well, gyda mwy o wybodaeth a sylwedd yn y flwyddyn sy'n dod. Byddwn yn adolygu'r ffordd orau o wneud hyn ac yn gweithredu'n canlyniadau yn y flwyddyn sy'n dod. Yn arbennig, rydym yn awyddus bod pobl yn gyffredinol yn gwybod am ein bodolaeth – yn rhannol er mwyn adlewyrchu a mynd ar ôl eu pryderon cyfiawn am bresenoldeb a safon ystadegau.

Rydym wedi nodi pedwar grŵp o fudd-ddeiliaid: y Senedd a gweinidogion, rhai'r DU ac mewn gweinyddiaethau datganoledig, yr ydym i fod i adrodd iddynt; y gymuned ddefnyddwyr; y rheiny sy'n creu ystadegau a sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd, hy yr Ystadegydd Gwladol a'i gydweithwyr yn y llywodraeth; a'r rheiny y gelwir arnynt i gyflenwi data crai ee busnes a dinasyddion.

Y Senedd a Gweinidogion

Senedd y DU

Cawsom ein gwahodd unwaith eto i fynychu Is-bwyllgor y Trysorlys i ateb cwestiynau ar adroddiad blynyddol y llynedd. Mae'r pwyllgor yn fudd-ddeiliad pwysig mewn Ystadegau Gwladol; cafwyd sesiynau i holi'r Ystadegydd Gwladol a'r Comisiwn Ystadegau yn ystod y flwyddyn. Gallodd y cadeirydd godi pryderon y Comisiwn ar nifer o faterion, yn enwedig triniaeth *Network Rail* yn y Cyfrifon Gwladol (gweler hefyd o dan *Network Rail* yn adran 4 uchod) ac ystadegau cronfeydd pensiwn. Dilynodd y pwyllgor y rhain wedyn gyda'r Ystadegydd Gwladol ac yn adroddiad Pwyllgor y Trysorlys *National Statistics: The Classification of Network Rail*, HC 154, Ionawr 2003.

Gweinidogion y llywodraeth

Rhan bwysig o'n gwaith yw cynghori gweinidogion ar Ystadegau Gwladol. Rydym yn gwneud hynny'n uniongyrchol a thrwy eu huwch swyddogion, mewn ysgrifen ac mewn cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb.

Gweinyddiaethau datganoledig

Yn ystod 2002-03 bu i ni gwblhau ein rhaglen gychwynnol o ymweliadau â gweinyddiaethau datganoledig, yn cwrdd ag ystadegwyr a'u cydweithwyr yng Ngweithrediaeth yr Alban ac yng Nghynulliad Gwladol Cymru. Roeddem yn falch hefyd yn ystod yr ymweliadau yma i gwrdd â Gweinidog Ystadegau'r Alban a gweld trafodaeth o Gwestiwn Cynulliad yn delio ag ystadegau pan oeddem yng Nghaerdydd. Yn ystod yr ymweliadau buom hefyd yn trafod cymhwyso'r Côd mewn gweinyddiaethau datganoledig a'r ffordd y mae ystadegwyr yn mynd i'r afael ag anghenion cynyddol gweinyddiaethau datganoledig, ar gyfer data ac ar gyfer dadansoddi. Credwn y bydd materion sy'n codi o anghenion ystadegol y gweinyddiaethau datganoledig yn fwyfwy pwysig yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Y gymuned ddefnyddwyr

Grwpiau Defnyddwyr Ystadegau a'r Cyngor Defnyddwyr Ystadegau

Yn ystod y flwyddyn buom yn parhau â'r cyfarfodydd rheolaidd gyda chadeiryddion grwpiau defnyddwyr ystadegau ac eraill, yn ymdrin â phynciau fel Rhaglen Waith Ystadegau Gwladol, y protocol ar ymgynghori â defnyddwyr, ein hadolygiad o'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau a chanlyniadau Cyfrifiad 2001. Mae'r trafodaethau mewn cyfarfodydd gyda chadeiryddion grwpiau defnyddwyr ystadegau wedi bod o gymorth i ni i ffurfio'n barn ac maent yn cael eu croesawu gan y gymuned ddefnyddwyr.

Byddwn yn parhau â'r cyfarfodydd hyn yn y dyfodol a hynny rhwng cyfarfodydd y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau. Erbyn hyn mae ysgrifennydd y Comisiwn yn arsylwi ar y Cyngor ac mae ar y pwyllgor sy'n trefnu cynhadledd nesaf y Cyngor ym mis Tachwedd 2003 ar fesur perfformiad llywodraeth. Mae'r Comisiwn yn rhoi cefnogaeth ariannol i'r digwyddiad, enghraifft o lle y gallwn roi cymorth wedi ei dargedu i gefnogi'r gymuned ddefnyddwyr ar bwnc sy'n cyd-fynd yn dda â'n gwaith ni ar dargedau llywodraeth.

Y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol

Rydym wedi gweithio gyda'r Gymdeithas Ystadegol Frenhinol mewn nifer o ffyrdd yn ystod y flwyddyn. Ym Mehefin trefnodd y Gymdeithas gyfarfod o arbenigwyr rhyngwladol i lywio adolygiad y Comisiwn o'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau. Yn Ionawr eleni buom yn cwrdd â chynrychiolwyr y Gymdeithas i fynd i'r afael â chwmpawd Ystadegau Gwladol a gweithredu'r *Code of Practice* a chael bod gennym lawer o dir cyffredin; mae gan y ddau sefydliad ran mewn hybu defnydd cyhoeddus o ystadegau. Mae'r Gymdeithas hefyd yn trefnu cyfarfodydd rheolaidd y mae comisiynwyr a staff wedi cymryd rhan ynddynt.

Cynhyrchwyr a gwarchodwyr Ystadegau Gwladol

Yr Ystadegydd Gwladol

Mae Cadeirydd y Comisiwn Ystadegau yn cwrdd â'r Ystadegydd Gwladol yn rheolaidd i drafod materion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Yn ogystal â hyn, mae'r Ystadegydd Gwladol yn cyfarfod y Comisiwn cyfan o dro i dro. Mae ysgrifenyddiaethau'r Comisiwn a'r SYG yn cysylltu'n aml iawn â'i gilydd.

Ystadegwyr llywodraeth eraill

Mae'n bwysig ein bod yn deall swyddogaethau a dulliau ystadegwyr ar draws y llywodraeth. Am y rheswm hwnnw, rydym yn ymweld ag adrannau llywodraeth bob hyn a hyn, gan gynnal trafodaethau gydag ystadegwyr llywodraeth ar wahanol lefelau. Er enghraifft, buom yn ymweld â'r Adran Iechyd a gweld staff yn cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o waith ystadegol, o gyflogau deintyddion i wasanaethau cymdeithasol i'r henoed.

Cyflenwyr data crai

Fel ag y crybwyllwyd yn adran 3 uchod o dan y *National Statistics Code of Practice*, rydym wedi cynnal trafodaethau gyda'r rheiny sydd â diddordeb mewn rheoli costau ar gyflenwyr data, fel Tîm Rheoleiddio Busnes Swyddfa'r Cabinet a'r CBI, a byddwn yn edrych ar anghenion darparwyr yn ein hymateb i'r protocol ar Reoli Llwyth Ymatebwyr. Rydym yn pryderu am faich arolygon ar ymatebwyr a byddwn yn gwneud achos prawf yn seiliedig ar sylwadau gan y gymuned fusnes. Gofynnwch – a chawsom – ragor o wybodaeth gan y SYG ar gostau cydymffurfiaeth yn eu rhaglen waith ddiweddaraf.

6. Golwg ymlaen 2003-04

Mae gan y Comisiwn Ystadegau nifer o flaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod sydd wedi cael eu crybwyll drwy gydol yr Adroddiad hwn. Dyma grynodedb bras ohonynt:

- parhau gyda'n hadolygiad o sut y cynhaliwyd y Cyfrifiad Poblogaeth a goblygiadau hyn o ran dibynadwyedd rhai canlyniadau sydd bellach yn destun dadl, addasrwydd y cwestiwn/cwestiynau a holwyd a'r berthynas rhwng data'r Cyfrifiad a data arall
- gweithio gyda'r Ystadegydd Gwladol ac eraill i sicrhau bod data pensiynau yn cwrdd ag anghenion y cyhoedd yn well
- cynnal adolygiad o'r defnydd o dablau cynghrair gan y llywodraeth, yn enwedig y sail ystadegol. Bydd hyn hefyd yn cynnwys canlyniadau is i lawr eu defnydd. Byddwn yn cysylltu hyn â'n hystyriaeth barhaol o ystadegau ar gyfer monitro targedau llywodraeth
- cwblhau'n gwaith ar y protocolau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r *Code of Practice*; a pharhau i weithio i gefnogi'r Ystadegydd Gwladol i sicrhau ei fod yn cael ei orfodi'n llym
- parhau â'n hadolygiad o'r angen am ddeddfwriaeth ystadegau, gan gomisiynu ymchwil pellach ac ymgynghori â chwaraewyr allweddol
- ystyried y ffordd orau o gyfiawnhau cyfres arbennig o wybodaeth fel Ystadegyn Gwladol ac adolygu pa ystadegau presennol sy'n cael eu dynodi felly. Disgwylw'n gellid dod ag eraill i'r categori hwn ond gall rhai o'r rhai presennol gael eu taflu allan hefyd
- adolygu'r goblygiadau i ymarfer cyhoeddi yn sgil y ffaith bod rhai Ystadegau Gwladol yn deillio o wybodaeth reoli. Mae'r ail bob amser ar gael ymhell cyn y cyntaf. Y tu hwnt i hynny, byddwn yn astudio'r estyniad posibl yn y defnydd o ddata gweinyddol fel sail i ystadegau a'r cyfyngiadau ar ei ddefnydd mwy eang, fel deddfwriaeth gwarchod data
- adolygu'r ffordd orau o ymestyn ein dealltwriaeth o anghenion defnyddwyr – presennol a thebygol – am Ystadegau Gwladol
- parhau â'n gwaith i hybu'r disgrifiad o ddibynadwyedd sydd ynghlwm â holl Ystadegau Gwladol. Nid ydym yn derbyn y farn y gallai unrhyw ddisgrifiadau o'r fath danseilio ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau neu eu bod o reidrwydd yn ddiystyr i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr. I'r gwrthwyneb, credwn bod yn cyhoedd yn deall yn dda iawn bod casglu gwybodaeth ystadegol o ansawdd da yn fater cymhleth a bod y canlyniadau fel arfer yn llai na pherffaith am resymau dilys. Byddwn yn trafod gyda'r SYG sut y mae diffinio a chyfleu 'ansawdd'
- chwilio am ffyrdd o ennyn – dros y tymor hirach – gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o Ystadegau Gwladol gan ddinasyddion, efallai drwy annog rhaglenni addysg a sylw yn y cyfryngau.

O ystyried bod ein Is-Bwyllgor Ymchwil ac Adolygiad yn llunio'i raglen newydd wrth i'r adroddiad yma gael ei ysgrifennu, bydd y rhestr hon o bynciau yn tyfu.

Atodiad 1: Y Comisiwn Ystadegau

Pwy ydym ni

Cawsom ein sefydlu ym Mehefin 2000 o dan y *Framework for National Statistics* i 'helpu i sicrhau bod Ystadegau Gwladol yn ddibynadwy ac yn ymatebol i anghenion y cyhoedd'. Roedd y *Framework* yn dynodi fel Ystadegau Gwladol holl gynnyrch ystadegol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) a nifer o'r ystadegau allweddol eraill sydd o ddi-ddordeb cyhoeddus a gynhrychir gan adrannau llywodraeth eraill a gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r DU yn ceisio datrys pryderon hirhoedlog am ymddiriedaeth y cyhoedd mewn ystadegau a chafodd y Comisiwn y cyfrifoldeb o gynghori ar ansawdd, sicrhau ansawdd a gosod blaenoriaethau i Ystadegau Gwladol.

Ein hamcanion

Mae pwyslais llawer o'n gwaith ar edrych a oes gan yr Ystadegydd Gwladol y systemau cywir mewn lle ac a ydi'r rhain yn cyflwyno'r canlyniadau angenrheidiol: ar gyfer sicrhau ansawdd; ar gyfer ymgynghori â defnyddwyr ac â chyflenwyr data crai; ac ar gyfer cynllunio cywir a gosod blaenoriaethau. Nid ydym, ac ni ddylem, wneud y swyddogaethau yma drosto. Swyddogaeth bwysig arall i ni yw hybu newid diwylliannol a chyfansoddiadol fel y bo angen os ydym am adeiladu ar y newidiadau cadarnhaol mewn ymarfer ystadegol yn y blynyddoedd diwethaf yn hytrach na'u troi'n ôl neu eu gadael i ddirywio.

Er mwyn cyflawni'r amcanion yma, rydym yn rhoi cyngor strategol annibynnol lefel uchel i weinidogion ac eraill ac yn gwneud y cyngor hwn yn gyhoeddus i'r gymuned gyfan. Rhaid i'n cyngor fod wedi ei seilio ar dystiolaeth ond ar yr un pryd rhaid iddo gydnabod ac ymateb i faterion cyfoes pwysig yng nghymdeithas y DU. Byddai llwyddiant mewn cyflawni'n amcanion yn golygu bod gan Ystadegau Gwladol integriti, perthnasedd a safon ac mai dyna'r ddirnadaeth ohonynt. Ail brawf llwyddiant yw bod y drafodaeth gyhoeddus yn canolbwyntio ar beth y mae'r ffigyrau'n eu dweud am y materion sylweddol ac nid ar sut y mae'r ffigyrau'n cael eu cynhyrchu.

Integriti: mae'n cynnwys delio'n deg (er enghraifft wrth ryddhau ffigyrau) a pharhad cyfresi allweddol, nid dim ond absenoldeb 'chwarae â ffigyrau'. Mae ymddiriedaeth y cyhoedd yn integriti Ystadegau Gwladol yn mynnu bod y prosesau o wneud penderfyniadau yn dryloyw i bawb.

Perthnasedd: i bob defnyddiwr, nid yn unig y rhai yn y llywodraeth. Ni all Ystadegau Gwladol gwrdd â'r holl anghenion posibl am ddata ond dylent ddarparu darlun cywir, diweddar, cynhwysfawr ac ystyrlon o'r economi a'r gymdeithas. Bydd hyn yn cefnogi ffurfio a monitro polisïau economaidd a chymdeithasol gan y llywodraeth yn ogystal â rhoi gwybodaeth i'r dinesydd.

Ansawdd: mae cywirdeb yn bwysig ond mae mesur yn amherffaith yn ei hanfod. Yr hyn sy'n bwysig yw bod defnyddwyr yn deall pa mor ddibynadwy yw'r ystadegau fel eu bod yn gallu barnu a ydynt yn addas i'r diben y'u bwriadwyd hwy. Mae ymddygiad da'n cymdeithas yn mynnu bod gan bawb fynediad at y wybodaeth y maent ei hangen i wneud penderfyniadau felly mae'n bwysig meithrin defnydd eang a chytbwys o Ystadegau Gwladol. Rhaid i'r ffordd y mae'r ystadegau eu hunain yn cael eu cyflwyno olygu eu bod yn hawdd eu darllen.

Atodiad 2: Y Comisiynwyr

Daw'r Comisiynwyr o amrywiaeth eang o gefndiroedd, ond maent yn rhannu dealltwriaeth dda o faterion ystadegol a gwerth ystadegau mewn trafodaeth ddemocrataidd.

Y Cadeirydd

Penodwyd **Sir John Kingman** ym Mai 2000 i wasanaethu am dair blynedd fel Cadeirydd cyntaf y Comisiwn. Ar y pryd ef oedd Is-Ganghellor Prifysgol Bryste, ond symudodd i Gaergrawnt yn 2001 i fod yn Gyfarwyddyd Sefydliad Isaac Newton ar gyfer Gwyddorau Mathemategol. Mae'n Ystadegydd Siartredig ac yn gyn Gadeirydd Sefydliad yr Ystadegwyr a Llywydd y Gymdeithas Ystadegol Frenhinol. Bu'n Gadeirydd y Cyngor Ymchwil Gwyddoniaeth a Pheirianneg, ac mae wedi gwasanaethu fel cyfarwyddyd anweithredol IBM (UK) Holdings Ltd, SmithKline Beecham plc a Grŵp Technoleg Prydeinig.

Y Comisiynwyr

Colette Bowe yw Dirprwy Gadeirydd Thames Water Utilities, Cadeirydd Gwasanaeth Ombwdsman Telegyfathrebau, ac mae'n aelod o Fwrdd Cymdeithas Adeiladu'r Yorkshire. Mae hi hefyd yn aelod o Gyngor coleg y Frenhines Mary, Prifysgol Llundain ac o Fwrdd Rheoli'r Sefydliad Gwladol i Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Cyn hynny bu'n Gadeirydd busnes cronfa gydfuddiannol Ewropeaidd Fleming Asset Management. Mae ganddi Ddoethuriaeth mewn Economeg.

Sir Kenneth Calman yw Is-Ganghellor a Warden Prifysgol Durham. Cyn hynny ef oedd Prif Swyddog Meddygol yr Adran Iechyd a Chadeirydd Pwyllgor Gwaith Sefydliad Iechyd y Byd. Cafodd ei hyfforddi fel llawfeddyg ac mae ganddo ddiddordeb arbennig ym maes triniaeth ac ymchwil canser. Ar hyn o bryd ef yw Cadeirydd y Sefydliad Dysgu ac Addysgu.

Patricia Hodgson yw Prif Weithredydd y Comisiwn Teledu Annibynnol a chyn hynny roedd yn Gyfarwyddyd Polisi a Chynllunio yn y BBC. Gwasanaethodd am chwe blynedd fel Aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chyfuniadau (bellach y Comisiwn Cystadleuaeth) a bu'n Gymrawd Cyswilt o Goleg Newnham, Caergrawnt.

David Rhind yw Is-Ganghellor a Phennaeth Prifysgol y Ddinas, Llundain. Mae'n Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol ac yn Gymrawd Anrhydeddus o'r Academi Brydeinig, a than 1998, ef oedd Cyfarwyddyd Cyffredinol Arolwg Ordnans, sefydliad mapio Prydain ac adran o'r llywodraeth. Bu'n aelod o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol. Yn y gorffennol cymerodd ran ganolog mewn adeiladu cronfeydd data ystadegol pwysig, yn arbennig data cyfrifiad. Cafodd ei benodi i olynu Sir John Kingman fel cadeirydd ym mis Mai 2003.

Mae **Janet Trewsdale** yn Gadeirydd Cyngor Economaidd Gogledd Iwerddon ac yn Uwch Ddarlithydd mewn Economeg ym Mhrifysgol Queen's, Belfast. Mae'n Ystadegydd Siartredig. Mae'n gyn Is-lywydd y Gymdeithas Ystadegau Frenhinol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymgynghorol ar Ystadegau (Gogledd Iwerddon). Bu'n cynrychioli'r Gymdeithas ar y Cyngor Defnyddwyr Ystadegau am 19 o flynyddoedd.

Mae **Derek Wanless** yn un o gyfarwyddwyr Northern Rock plc, Busnes yn y Gymuned a Mentrau Nesta Cyf, yn Gadeirydd Sefydliad Hyfforddi'r Gwasanaethau Ariannol ac yn Ymddiriedolydd i'r Gwaddoliad Gwladol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau. Yn 2002 bu'n adrodd ar wasanaethau iechyd y DU i Ganghellor y Trysorlys. Ar hyn o bryd mae'n adolygu'r cynnydd dilynol a hefyd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bu'n gweithio i fanc NatWest am 30 mlynedd ac ef oedd Prif Weithredydd y Grŵp am saith mlynedd. Mae ganddo MA mewn Mathemateg o Brifysgol Caergrawnt ac mae wedi cymhwyso fel Aelod o Sefydliad yr Ystadegwyr.

Martin Weale yw Cyfarwydd y Sefydliad i Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol ac mae wedi ysgrifennu'n eang ar ystadegau economaidd. Bu'n darlithio mewn Economeg ym Mhrifysgol Caergrawnt, lle roedd yn Gymrawd o Goleg Clare, a chyn hynny, bu'n gweithio yn Swyddfa Ystadegau Malawi. Mae'n Gymrawd Anrhydeddus o Sefydliad yr Actiwariaid ac yn Drysorydd Ymddiriedolaeth Ymchwil Clefyd Alzheimer. Yn ddiweddar mabwysiadodd y Comisiwn Ewropeaidd gynigion yn deillio o brosiect a arweiniwyd ganddo ar gynhyrchu amcangyfrifon prydlon ar dwf economaidd yn Ardal yr Ewro.

Y Prif Weithredydd

Mae **Gill Eastbrook** wedi treulio'r rhan fwyaf o'i gyrfa yng Ngwasanaeth Ystadegau'r Llywodraeth fel defnyddiwr a chynhyrchydd ystadegau. Yn fwyaf diweddar, hi oedd pennaeth ystadegau gweithlu yng Ngweithrediaeth y Gwasanaeth Iechyd a chyn hynny bu'n gweithio ar dîm arolwg gwariant cyhoeddus yr Adran Iechyd. Mae ganddi MSc mewn Ystadegau o Ysgol Economeg Llundain ac mae'n Ystadegydd Siartredig.

Atodiad 3: Gwneud ein rhan mewn Ystadegau Gwladol

Rhaglen Waith Ystadegau Gwladol

Mae'r *Framework for National Statistics* yn rhoi dyletswydd ar y Comisiwn i roi sylwadau ar berfformiad a chynllunio Ystadegau Gwladol, ac yn arbennig yr adroddiad blynyddol a'r rhaglen waith lefel uchel. Roeddem yn croesawu cynhyrchu'r ail raglen waith, a'r ystod eang o waith ar draws Gwasanaeth Ystadegol y Llywodraeth i gyd a adlewyrchwyd ynddo, a rhoesom sylwadau arno yn Awst 2002.

Sylwadau ar *National Statistics Work Programme 2001-04*

Croesawodd y Comisiwn y datblygiad pellach o'r strategaeth gyffredinol ar gyfer Ystadegau Gwladol, gan gydnabod y cynnydd a wnaed mewn rhai agweddau o gynllunio ers y llynedd a'r corff sylweddol o waith pwysig a adlewyrchir yn y rhaglen. Roeddem yn dal i bryderu, fodd bynnag, am nifer o agweddau o'r broses, yn cynnwys yr amseriad a chysylltu adnoddau â chanlyniadau. Anogwyd yr Ystadegydd Gwladol i ystyried beth oedd y ffordd orau i'n cynnal ni a'r budd-ddeiliaid eraill i ychwanegu gwerth at y broses gynllunio heb ychwanegu ymhellach ar feichiau'r staff ar draws y Gwasanaeth, sydd angen rhoi eu hymdrechion i gyflwyno'r rhaglen.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol bellach yn adolygu'r trefniadau ar gyfer ymgynghori ar y rhaglen waith, a fyddai'n golygu mai dim ond bob yn ail flwyddyn y byddai sylwadau'n cael eu gwahodd, a sawl mis wedi dechrau'r cyfnod y mae'r rhaglen yn ymwneud ag ef. Fodd bynnag croesawodd y Comisiwn y cynnig o allu rhoi sylwadau ar y cynigion yn gynt yn y broses Adolygiad Gwariant, cyn bod dyraniadau ariannol i adrannau unigol yn cael eu penderfynu.

Adroddiad Blynyddol Ystadegau Gwladol 2001/02

Trafododd y Comisiwn Ystadegau *Adroddiad Blynyddol Ystadegau Gwladol 2001/02* yn ei gyfarfod ym mis Ionawr a daeth i'r casgliad bod llawer o waith gwerthfawr yn cael ei wneud o dan faner Ystadegau Gwladol. Yn ystod y flwyddyn buom yn rhoi sylwadau ar faterion wrth iddynt godi, yn hytrach nag aros tan i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, a byddwn yn parhau i wneud hyn. Mi wnaethom, fodd bynnag, ysgrifennu at y SYG ynglŷn â phwyntiau am y drefn, yn arbennig y byddai'n haws olrhain cynnydd pe bai'r cysylltiad rhwng themâu perthnasol y rhaglen waith a'r gwahanol adrannau o'r adroddiad blynyddol yn fwy amlwg. Gwnaethom bwyntiau hefyd am ddarparu gwell gwybodaeth ar newidiadau i gwmpawd Ystadegau Gwladol yr ydym yn eu dilyn i fyny gyda'r SYG, yn arbennig yng ngoleuni *Statistics on Race and the Criminal Justice*.

Adolygiadau ansawdd

Mae'r rhaglen dreigl o adolygiadau ansawdd o ganlyniadau Ystadegau Gwladol allweddol wedi parhau i ddatblygu, gydag 11 o adroddiadau yn cael eu derbyn gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Er nad ydym fel arfer yn cymryd rhan yn yr adolygiadau eu hunain, rydym yn canfod bod yr ystod o wybodaeth a ddarperir o gymorth i asesu cynnydd cyffredinol wrth sicrhau ansawdd Ystadegau Gwladol.

Roedd y pynciau a oedd o ddiddordeb arbennig i'r Comisiwn yn cynnwys: y fethodoleg ar gyfer rhagamcanu marwolaeth; y fframwaith ar gyfer ystadegau'r farchnad lafur; yr Arolwg Gweithlu; a chyfrifon a dangosyddion llywodraeth. Mae nifer o adolygiadau yn canolbwyntio ar a ydi'r ystadegau yr ymdriniwyd â hwy yn cwrdd ag anghenion y defnyddwyr yn hytrach na

chanolbwyntio'n benodol ar ansawdd data. Mae'r angen i flaenoriaethu argymhellion oherwydd cyfyngiadau adnoddau wedi bod yn bwnc trafod hefyd.

Un o'r argymhellion a gododd o *Review of the Framework for Labour Market* oedd dod â chyfraddau cyfrif hawliadau i ardaloedd is-ranbarthol wedi eu seilio ar breswylwyr yn hytrach na'r gweithlu. Aethom i'r afael â hyn gyda'r Ystadegydd Gwladol o ganlyniad i bryderon a godwyd gan y gymuned ddefnyddwyr. Tynnwyd y ffigyrau o Ystadegau Gwladol ac ni fuont yn ymddangos yng nghyhoeddiadau'r SYG o fis Ionawr 2003. Bwriad yr ail-labelu, o Ionawr 2003, o amcangyfrifon diweithdra'r Arolwg fel 'diweithdra' yn hytrach na 'Diweithdra Sefydliad Llafur Rhyngwladol' yw pwysleisio mai dyma fesur swyddogol diweithdra yn y DU – mae hwn hefyd yn ganlyniad i argymhelliad yn yr arolwg.

Argymhelliad sydd â goblygiadau ehangach o'r *Review of the Higher Education Student Statistics* yw y dylai'r Bwrdd Rhaglen Sicrhau Ansawdd Ystadegau Gwladol ystyried i ba raddau y gall gwaith trydydd person gael ei sicrhau o ran ansawdd gan gyhoeddwr cynnyrch Ystadegau Gwladol. Mae'r tîm adolygu yn awgrymu hefyd y dylai'r Swyddfa Ystadegau Gwladol adolygu meysydd eraill o fewn canlyniadau Ystadegau Gwladol i ddarganfod pa gyfran o'r cyhoeddiadau sy'n dangos ei logo a ddaeth o gyrff sydd ar hyn o bryd y tu hwnt i gwmpawd y fframwaith Ystadegau Gwladol'.

Atodiad 4: Rhestr o adroddiadau'r Comisiwn hyd yma

Adroddiadau Ymchwil

Building Links with Stakeholders: our general approach and report of progress so far. Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 1, Rhagfyr 2000.

Janet Trewsdale and Gill Eastabrook, *National Statistics to Monitor the NHS Cancer Plan: report of a pre-scoping study.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 2, Mai 2001.

Kenneth F. Wallis, *Report of a Scoping Study on Seasonal Adjustment Methods at the Office for National Statistics.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 3, Mehefin 2001.

Malcolm Jones, *Statistics Commission's Views on Topics to be Covered in the Office for National Statistics Review of Regional Accounts.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 4, Medi 2001.

Implementation of the Review of Revisions to the Average Earnings Index Report: Statistics Commission's consideration of the ONS progress report. Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 5, Ionawr 2002.

Steer Davies Gleave, *Access to National Statistics on Transport via the Web.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 6, Ionawr 2002.

Janet Trewsdale and Gill Eastabrook, *National Statistics to Monitor the NHS Cancer Plan: report of a scoping study.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 7, Chwefror 2002.

Lovedeep Vaid, *Does the GHS Now Meet User Needs?: report of a scoping study* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 8, Mehefin 2002.

Malcolm Jones, *Price Indices and Deflators Produced at the Office for National Statistics: report of a scoping study.* Adroddiad Comisiwn Ystadegau Rhif 9, Awst 2002.

Adroddiadau Blynyddol

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ystadegau 2000-01. Y Llyfrfa, Gorffennaf 2001.

Adroddiad Blynyddol y Comisiwn Ystadegau 2001-02. Y Llyfrfa, Gorffennaf 2002.

Tystiolaeth a Sylwadau

Submission of Evidence to the Treasury Sub-committee Inquiry into National Statistics: 16 Tachwedd 2000. Tachwedd 2000.

Response to the Treasury Committee Report on National Statistics. Mawrth 2001.

Comments on the High-Level Programme for National Statistics. Gorffennaf 2001.

Comments on the National Statistics Annual Report 2000-01. Tachwedd 2001.

Submission of Evidence to the Treasury Sub-committee Inquiry into the 2001 Census in England and Wales. Tachwedd 2001.

Draft National Statistics Code of Practice: response of the Statistics Commission. Mawrth 2002.

National Statistics Code of Practice and Protocol on Release Practices: response of the Statistics Commission to the consultation paper on Arrangements in Scotland. Mehefin 2002.

Comments on the National Statistics High Level Programme 2002/03 – 2004/05. Awst 2002.

Draft Protocol on Professional Competence: response of the Statistics Commission. Chwefror 2003.

Draft Protocol on Quality Management: response of the Statistics Commission. Mawrth 2003.

Mae adroddiadau sydd heb eu cyhoeddi ar gael trwy wneud cais i'r Comisiwn.

Atodiad 5: Perfformiad yn erbyn amcanion 2002-03

AMCANION

Cynnal a datblygu sianelau cyfathrebu effeithiol gyda budd-ddeiliaid.

Gwneud gwaith ymchwil a chasglu gwybodaeth fel ein bod yn gallu ymateb i faterion cyfoes o sail tystiolaeth gadarn.

Parhau â gwaith ar Gyfrifiad Poblogaeth 2001 ac ar faterion Cyfrifiad tymor-hirach

Sicrhau bod *Code of Practice* addas a phrotocolau ategol yn cael eu rhoi mewn grym cyn gynted ag y bo modd, ac yna monitro sut y maent yn gweithio.

Adolygu'r angen am ddeddfwriaeth ystadegol.

CYFLAWNIADAU

Cynhaliwyd tri chyfarfod gyda chadeiryddion grwpiau defnyddwyr ystadegau ac eraill a dau gyfarfod gyda'r Gymdeithas Ystadegau Frenhinol. Cyflwynwyd papurau mewn pedwar achlysur. Mae ymdriniaeth y wasg o'r Comisiwn yn dal i ehangu a chyhoeddwyd pedwar ar ddeg o ddatganiadau i'r wasg yn ystod y flwyddyn.

Cwblhawyd chwe phrosiect ymchwil a chyhoeddwyd dau adroddiad. Roedd casglu gwybodaeth tymor byr yn fwy amlwg eleni. Roedd yn ategu rhai o gyflawniadau mwyaf pwysig y Comisiwn mewn amrywiaeth o feysydd amserol o *Network Rail* i restrau aros y Gwasanaeth lechyd.

Comisiynwyd astudiaeth ymchwil yn edrych ar wersi i'w dysgu o Gyfrifiad 2001, ac ystyried opsiynau ar gyfer Cyfrifiad yn y dyfodol. Aethpwyd ar ôl pryderon a oedd yn gysylltiedig â'r canlyniadau, yn cynnwys rheoli datgeliad a materion dibynadwyedd. Cychwynnwyd ar raglen i archwilio gwerthusiadau'r Swyddogion Cyfrifiad o Gyfrifiad 2001. Datblygwyd cynlluniau i gael cynhadledd ar faterion polisi cyhoeddus y Cyfrifiad.

Cafodd sylwadau'r Comisiwn eu cynnwys yn fersiwn terfynol y *Code of Practice / Côt Arferion* ac eithrio swyddogaeth y Canghellor yn y Mynegrif Prisiau Adwerthol, ac mae trafodaeth ar hynny'n parhau. Mae'r Comisiwn wedi ymateb i dri protocol ac mae sylwadau ar yr wyth arall ar y gweill. Mae'r ysgrifenyddiaeth wedi bod yn monitro a dilyn unrhyw doriadau posibl o'r Côt ac yn trafod sut i wella gorfodaeth gyda'r SYG.

Trefnom ymarfer ymgynghori a oedd yn cadarnhau'r materion allweddol a fyddai angen mynd i'r afael â nhw yn ein hadolygiad. Erbyn diwedd Tachwedd 2002 roedd y gwaith sylfaenol o ganfod y materion allweddol i'w hadolygu ac adeiladu ar ein sail gwybodaeth wedi ei gwblhau. Sefydlwyd is-bwyllgor yn Chwefror 2003 i fynd â'r adolygiad yn ei flaen.

Atodiad 6: Adnoddau a rheoli risg

Cyllid

Yn amodol ar angen, mae cyllid cymorth grant o hyd at £1.35 miliwn y flwyddyn ar gael ar gyfer ein blynyddoedd cyntaf. Roedd y gwariant yn 2002-03 yn £1.16 miliwn, prif elfennau hwn oedd llety, staffio a chostau cysylltiedig a'r rhaglen ymchwil. Disgwylir iddo fod yn uwch y flwyddyn nesaf wrth i'r rhaglen waith, ac yn arbennig y rhaglen ymchwil ac adolygu, ddatblygu.

Lefelau staffio presennol

Ar ddiwedd y flwyddyn roedd gan y Comisiwn staff o 10, yn cynnwys pedwar ar secondiad o'u cyflogwyr parhaol a phump ar gytundebau tymor-sefydlog gyda'n hadran nawdd. Llenwyd un swydd ategol gan aelod o staff dros-dros.

Buom yn parhau i ddefnyddio arbenigwyr o'r tu allan er mwyn cael eu harbenigedd penodol a'u awdurdod ar brosiectau ymchwil fel y bo'n briodol, neu lle nad oes gennym y gallu mewnol i ymgymryd â'r gwaith.

Rheoli risg

Mae rheoli risg yn elfen sylfaenol o'n strwythur rheoli mewnol, ac mae wedi ei adeiladu i mewn i'n prosesau rheoli. Yn ystod y flwyddyn buom yn asesu'r risgiau yr oeddem yn agored iddynt, yn adolygu'n strategaethau rheoli risg yn dilyn hynny a'u gosod allan mewn cofrestr risg. Sefydrom Bwyllgor Archwilio, a gyfarfu bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Bu'n ystyried nifer o faterion yn cynnwys rheoli risg, rheolaeth fewnol, trefniadau llywodraethu a'r rhaglen archwiliad mewnol.